# ECO'R WYDDFA

RHIF 21 RHAGFYR 1977 Pris: 10c


## CYNHESRWYDD Y NADOLIG



**BYDD pensiynwyr Llanberis yn sicr o fod yn gynnes dros y Nadolig. Mae sawl gwirfoddolwr yn y pentref am fynd ati yn ystod yr wythnosau nesaf yma i dorri logiau ar gyfer y pensiynwyr sy'n dal i ddibynnu ar dân agored fel cyfrwng gwresogi tŷ. A beth yn well na thanllwyth o dân i wresogi aelwyd ac i greu awyrgylch hefyd!**

Digwyddodd Mr. Tom Jones, Stryd Newton weld gweithwyr yr MBZ yn torri coed ar eu safle ger y llyn a rhoddodd gais i'r swyddogion amdanynt. Cytunodd yr MBZ – ac yn wir cyrchwyd y logiau gan y cwmni i safle arbennig yn Llanberis i'w torri ymhellach gan y gwirfoddolwyr.

Y cyfeillion sydd wedi cytuno i wneud y gorchwyl o dorri'r coed yn logiau ac i'w dosbarthu o amgylch â lori yw Tom Jones, Stryd Newton, y Cynghorydd Francis Jones, Lal Jones, Ken Jones a Tom Bryniog Jones.Rhain yw'r hogia sydd wedi ymgymeryd â'r gwaith yn barod – ond dichon na ddaw ychwaneg gyda'u bwyelli a'u llifau!

Chwithau bensiynwyr Llanbêr rhowch eich enwau i'r canlynol os ydych am gyflenwad o logiau y Nadolig yma. ..

**Y Cynghorydd Francis Jones, 3 Maes Padarn neu Mr. Tom Jones, 34 Stryd Newton. Gallwch hefyd roi eich enwau a'ch cyfeiriadau i Miss Ann Jones, 4 Minafon Terrace.**

# Padarn yn gorlifo!

## Troi Hwch Yntau Glanhau Seiont?



*Gwnaeth y Cynghorydd Francis Jones ymdrech arbennig iawn i geisio mynd at wraidd y broblem fawr a wynebodd rhai trigolion Llanberis yn ystod llifogydd mawr mis Tachwedd. Daeth y llifogydd â llanastr a phoen gydag ef. Nid oedd y Cynghorydd Francis Jones am weld hyn yn digwydd eto. Ei ddadl ef i'r B.C.C.T. oedd fod y ffaith iddynt hwy droi cwrs Afon Hwch i lifo yn syth i'r Padarn yn un o'r rhesymau am y difrod. Dadl digon teg, a chafodd wrandawiad gan gynrychiolwyr o'r Bwrdd.*

*Ond beth am y llun? Y diweddar Brymer Roberts yw'r gŵr sy'n rhwyfo'r cwch ger drws pictiwrs Llanberis ac fe'i tynnwyd yn 1925. Ai problem newydd yw hon? Mae llawer yn cofio strydoedd Llanberis dan ddŵr yn y cyfnod hwn – ond glanhau tipyn ar wely afon Seiont ddaeth â'r broblem i ben.*

*Cred yr Eco y gall Afon Seiont wneud hefo glanhad arall yn syth -a bod hyn yn rheswm ychwanegol i'r ffaith fod yr hen lyn yn gorlifo!*

# Crefftwr Lleol Yn Dod I'r Amlwg

**MAE gwaith a ddechreuodd fel hobi un o hogiau'r ardal ar fin datblygu'n rhywbeth llawer iawn mwy. Rhoddodd menter Gwilym Williams,"Crefft Elidir" enw pentref Deiniolen unwaith eto, fel yn oes aur y chwareli,ar fap y diwydiant llechi. Ond y tro hwn, defnydd pur wahanol a wneir o'r llechen.**

Yn ei weithdy bychan yn y pentref, lle sy'n gwbl anaddas iddo arddangos ei grefft, y bydd Gwilym, a roddodd y gorau i'w swydd mewn ffatri i ddechrau'r fenter hon tua dwy flynedd yn ôl, yn trin y llechen leol i'w phwrpas newydd. Mae ei waith, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys lluniau gwreiddiol ar lechen o adar o bob math yn ogystal â gwaith ag ynddo ymwybyddiaeth gref o'r ardal a'i chefndir chwarelyddol, wedi ei gyfeirio at farchnad eang iawn gydag ymwelwyr yn ffurfio y rhan helaethaf ohoni. Ond gellid meddwl y byddai unrhyw un, tramor neu leol, yn gwerthfawrogi'r manylder modelau o drenau bach yr Wyddfa ar gefndir o lechen neu'n dotio at ffigurau'r chwarelwyr wrth eu gwaith – un yn tyllu, un arall yn hollti a'r llall yn 'can lyn wagan'. Mae hawlfraint gan Gwilym ar y ffigurau yma sy'n hynod o gywrain.

Pe bai gan Gwilym weithdy iawn (mae'n chwilio am un) – yn yr ardal yma byddai'n croesawu pobl i ddod i'w weld yn gweithio. Ar hyn o bryd mae o wrthi'n brysur yn paratoi ac yn ychwanegu at ei stoc. Er mai cymharol fychan yw ei farchnad wedi bod mae wedi derbyn ymholiadau o Fryste a De Cymru ac mae'n braf ganddo feddwl hefyd fod ychydig o'i waith ar ôl ymweliad diweddar â'i weithdy gan dramorwyr, yn addurno cartrefi ar gyfandir Ewrop. Y peth mwyaf calonogol iddo ynglŷn â hyn i gyd yw'r ffaith nad oedd bryd hynny wedi dechrau hysbysebu ei waith o ddifri. Disgwylia y bydd yr archebion a'r ymholiadau yn niferus iawn ar ôl iddo wneud hynny.



Mae Gwilym yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Datblygu Cymreig ac yn arbennig i Mr. Bryn Parry am ei gyngor ynglŷn â ble a sut i werthu'r cynnyrch, ac am ei arweiniad yn gyffredinol. Gwelir gwaith Gwilym mewn canolfannau ymwelwyr fel Llanberis, Betws-y-Coed a Ffestiniog, ond gellid, wrth gwrs, os ydych yn chwilio am anrheg Nadolig anghyffredin a chwaethus, ddod i gysylltiad ag o yn ei weithdy yn Neiniolen neu drwy ymholiad ar y ffôn, Padarn: 210.

Dymuna'r Eco bob llwyddiant iddo.

## RHIFYN Y Nadolig

**Bydd, mi fydd yna rifyn arall o'r Eco cyn y Nadolig – ond i'r Golygydd gael y deunydd a'r hysbysebion i mewn erbyn RHAGFYR 7fed**

# ECO'R WYDDFA

RHIF 21 RHAGFYR 1977

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

**Is-olygydd:**
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 4051*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*


## DIOLCH

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at gostau argraffu'r Eco.

£1: Di enw, Brynrefail; £2: Miss Mary Williams, 5 Rallt, Gerlan, Bethesda.

## W.D. yn ateb W.D.

*Annwyl W.D. Llanberis,*

*Diolch yn fawr i chwi am ategu rhai o'm sylwadau parthed cyflwr mynwent y plwyf a'ch bod yn cydweld a mi fod y fangre yn haeddu sylw arbennig. Oni ddylai aelodau o'r Llywodraeth Leol ymweld â'r lle, a darparu cynllun i weithredu ac nid disgwyl ewyllys dda un dyn wrthi yr oll o'i amser hamdden i dacluso'r fynwent? Mae yno glawdd bron yn adfail ar y terfyn rhwng y dafarn a'r fynwent. Hefyd mae'r glwyd haearn sydd rhwng Ty'n Lôn a Thŷ Bailey Williams, yn gweiddi yn groch am daenen o baent.*

*Derbyniwch fy ymddiheuriad trylwyr a diffuant am fy mod wedi esgeuluso crybwyll am y diweddar Harry Jones. Yr oedd rhai o'm ffrindiau wedi dweud wrthyf am ffyddlondeb y brawd annwyl a'i ofal diflino am acer Duw.*

*'Roeddwn wedi bwriadu rhoddi gair i mewn ond gwelais nad oedd gofod yn caniatau. Diolch yn fawr i chwi syr am lenwi'r bwlch yn fy lle, gyda'r union eiriau a fuaswn wedi eu dewis fy hun i dalu teyrnged i'r diweddar Harri Jones.*

*Diolch o galon i chwi am lenwi bwlch y methais fy hun â'i lenwi.*

*Yr eiddoch yn ddiffuant,*
*W.D. Bangor.*

# LLYTHYRAU

## Camgymêr!

*"Quarryman's Champion"*

*Annwyl Olygydd,*

*Parthed sylwadau'r Parch. Emyr Owen am y diweddar Robert Parry, Ceunant, Llanrug, a thraethawd ymchwil y diweddar Roose Williams. Posib iddo gymysgu dau "Barry", gan mai testun ymchwil Mr. Roose Williams oedd "W.J. Parry, Quarryman's Champion", a'i wrthrych oedd William John Parry, Coetmor, Bethesda, un o wŷr amlycaf gogledd Cymru yn niwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon, ar flaen y gad hefo 'Achosion' mawr y cyfnod, ond a gysylltir glosiaf ag achos Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ac a Streic Fawr y Penrhyn 1900–3.*

*Cyhoeddwyd y traethawd yn gyfresi yn rhifynnau Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon a'r olaf yn rhifyn 1969.*

*M. Pritchard,*
*Caernarfon.*

## Pwy yw'r Trydydd?

*Annwyl Syr,*

*Yn Rhifyn mis Hydref dangoswyd darlun o'r 'Chwarelwyr wrth eu Gwaith'.*

*Dyma enwau'r chwarelwyr o'r chwith i'r dde:*

*1. William Thomas Roberts, 3 Glandwr Terrace, Clwt-y-bont; 2. Mab Bwlch Cae Mawr (tad Emrys Bwlch Cae Mawr); 3. David Henry Thomas (tad Henry Peter Thomas).*

*'Rwyf yn berffaith sicr gan mai fy nhad ydyw'r dyn dan sylw.*

*Yn rhifyn Tachwedd, fe 'i gwelir eto yng nghwmni drama Disgwylfa — rhif 8 o'r chwith yn y rhes ôl, yn y darlun. Priod Laura Roberts ar y pryd sydd hefyd yn y darlun — rhif 5 yn yr ail res, o'r tu ôl.*

*Hannah E. Roberts,*

*48 Ffordd Tanrhiw,*
*Tregarth*

*Tŷ Macpelah,*

*Annwyl Olygydd,*

*Mewn atebiad i'r gofyniad pwy oedd y trydydd gŵr yn y llun chwarel, hoffwn nodi mai W.T. Roberts, Glandwr Terrace, Clwt-bont oedd y trydydd. Bu farw Mehefin 19, 1924 yn 52 mlwydd oed. Dyma deyrnged y diweddar Barchedig E.E. Jones iddo:*

*"Bu W.T. Roberts yn ffyddlon am flynyddoedd gyda Chaniadaeth y Cysegr, ac arno ef yn unig y dibynnwyd am gyfnod yn ystod y rhyfel." Yr oedd y tri gŵr â chysylltiad â'r Eglwys yn Nisgwylfa — D.H. Thomas yn flaenor, ac R. Williams ar un adeg yn cadw'r Tŷ Capel.*

*N. Owen*

*'Cilcafan'*
*5 Stad Coetmor*
*Bethesda*

*Annwyl Olygydd,*

*Hoffwn sylwi ar ddau o'r llythyrau a gyhoeddwyd gennych y mis diwethaf:*

*(1) Llythyr y Parch. Emyr Owen. Ofnaf i Mr. Owen gymysgu rhwng Robert Parry, Ceunant a W.J. Parry, Bethesda. Nid ar Robert Parry eithr ar W.J.Parry y sgrifennodd y diweddar Roose Williams ei draethawd M.A. Methwyd a chael Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol i gyhoeddi'r traethawd ond mae talfyriad ohono (yn Saesneg) yn Nhrafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon rhwng 1962 a 1969 dan y pennawd "W.J.Parry, Quarryman's Champion".*

*(2) Llythyr Mr. A.C.Williams. Mae fy nhad – David Arthur Jones, 'Gorffwysfa', Deiniolen – yn cofio cerdded o Ddeiniolen i'r Faenol yn dilyn llwyddiant Jerry M. yn y Grand National. Mae'n cofio i ddirprwyaeth o chwarelwyr fynd at Assheton Smith pan oedd yn cerdded ei geffyl o gwmpas a rhoi llythyr iddo. Cais am isrif cyflog oedd y llythyr ac fe'i rhoddwyd ar waethaf rhybuddion J.C.Lloyd Williams (Joni Lloyd), y Rheolwr. Gwgodd Assheton Smith o weld yr hyfdra hwn ond cofia 'nhad i'w wraig droi ato a dweud "Be a man, George". Ni ddaeth isrif cyflog i Ddinorwig hyd 1919.*

*Pwy fedr gadarnhau'r hanesyn ac ychwanegu ato?*

*Yn gywir iawn,*
Dafydd Orwig.

## Man Cyfarfod

*3 Maes Padarn,*
*Llanberis.*

*Annwyl Gyfeillion,*

*Hoffwn trwy gyfrwng Eco'r Wyddfa hysbysu y byddaf yn cynnal "surgery" yn London House, Llanberis ddydd Sadwrn 10ed o Ragfyr o 9.30 hyd at 11.00 y bore; ac wedi hynny bob pythefnos am yr un amser.*

*Teimlaf y byddai man cyfarfod, sydd yn ganolog yn y pentref, o fudd mawr i'r rhai sydd am fy ngweld ar unrhyw fater.* **Er hynny yr wyf am bwysleisio fod perffaith ryddid i unrhyw un alw yn fy nghartref ym Maes Padarn fel arfer ac mai er hwylustod yn unig y byddaf yn y pentref.**

*Bydd croeso cynnes i bawb ac edrychaf ymlaen i'ch gweld.*

*Fy mwriad ydyw dechrau yr un gwasanaeth yng Nghwm-y-glo a Nant Peris ddechrau'r flwyddyn newydd wedi trefnu ystafell i gyfarfod.*

*Yn gywir,*
*Francis Jones.*

**ECO'R WYDDFA TRWY'R POST**

*Cysylltwch â*
**Selwyn Williams,**
*(Trefnydd Gwerthiant)*
**Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.**
*Caernarfon 3577.*


AR GYFER Y NADOLIG.......



**Teganau**

**Teganau**

**Teganau**

YN SIOP **E.WILSON HUGHES**

**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS** FFÔN 491

MAE

**Sion Corn**



WEDI BOD YN BAROD YN SIOP

**Eryl** Y SGWÂR LLANRUG Ffôn 2767

Yn ogystal â'n stoc ragorol arferol o ddafedd a dillad plant mae yma stoc arbennig o ANRHEGION GWYCH i hogia a genod o bob oed.

DEWCH NEU MI FYDD YN RHY HWYR!

CYFARCHION Y TYMOR
ODDI WRTH

**GLYN ROBERTS a'r Mab**

DYNION GLO A CHLUDWYR
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2125

Mi gadwa ni chi'n gynnes dros yr ŵyl!

GELLWCH YMDDIRIED YN

**JOHN TREVOR**

**Garej Hafod Llanrug**

am geir newydd
ac ail law rhagorol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

**NADOLIG YN Y CO-OP**

**LLANRUG**

**Ffôn: CAERNARFON 2937**

MAE YMA RYWBETH I BAWB!
Dillad dynion, merched a phlant
Teganau – Slipars i Nain – Blancedi i Anti Jên
Llyfrau Cymraeg i blant drws nesa
Trôns a sanau i Taid
Carpedi i'r tŷ
Bwydydd – Diodydd
HYN OLL
A LLAWER MWY O FARGEINION

7 CEINIOG YN Y BUNT O DDIFIDEND I AELODAU'R GYMDEITHAS

DYMUNA'R HOLL STAFF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I DDARLLENWYR 'YR ECO'

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**R&V JONES**

SNOWDON STORES
LLANRUG
Ffôn :
CAERNARFON 4472)
PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

# CYFARCHION NADOLIG O LANRUG

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
Gwsmeriaid Hen a Newydd
oddi wrth

***SIOP DELEDU***

**T CEPAS**

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

DDYNION
A
MERCHED!
Edrychwch ar eich gorau
y Nadolig hwn ar ôl trin
eich gwallt yn

A. WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf,
LLANRUG.
Ffôn: Caernarfon 2023

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY GROESLON MARC**

**LLAN** (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth
Peter a Muriel
GWESTY

**Glyntwrog Llanrug**

Diolch yn fawr am eich
croeso a'ch cefnogaeth.

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
pawb yn y

**LLYTHYRDY LLANRUG**


Ffôn: Caernarfon 2422

Simneiau glân am bris rhesymol gan

**G. LLOYD**

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 4781*



Cyfarchion y Tymor i chwi oll!

*Defnyddir
peiriant sugno i lanhau*

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

***W.J.GRIFFITH***

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU GWRESOGI OLEW

**BP heat**
A SHELL-MEX

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

***R.Hughes Jones a'r Mab***

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus – prisiau rhesymol

Dymuna

**H.W.Owen
Dyn Glo a Chludwr**

LLANRUG
Ffôn Caernarfon 4426

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll

DYMUNA
JERRY & MARGARET
WARDLE

*SWYDDFA'R POST*
*a Stordy*
*Cwm-y-glo*

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll

**Cyfarchion Nadolig o**

GWM-Y-GLO

**BRYNREFAIL a**

**BETHEL** *(Dros y dudalen).*



**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814



GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth
Y BRODYR MORRIS

**BECWS GORS BACH**

CWM-Y-GLO
Ffôn Llanberis 430

Bara da yw bara Cwm
Triwch rai bach, triwch rai crwn
Beth bynnag fo'r siap, beth bynnag fo'r maint
Dyma'r gorau i blesio bob daint!



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**C & D.WAGER**

**Llythyrdy**

**BRYNREFAIL**

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Dymuna
Bill ac Eira

**Gwesty'r Fricsan**

(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl ffrindiau a chwsmeriaid



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

London Garage

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 234

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mrs. Fowler

Siop Chips Cwm-y-Glo

Ffôn Llanberis 514

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth
MEIRWEN A GWILYM
**WYN JONES**

## SWYDDFA'R POST
## BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD MELYSION PAPURAU NEWYDD

---

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

**Bwriadu Priodi?**

NEU UNRHYW ACHLYSUR ARALL BYTHGOFIADWY

*AM LUNIAU LLIW NEU DDU A GWYN*

## DENNIS A. JONES
**FFOTOGRAFFYDD**
Denfor, 1 Stad Eryri
Bethel
*Ffôn: Y Felinheli 670 711*

---

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth
M. WILLIAMS

## BRYN DAIRY
## Saron
## Bethel

Ffôn: Y Felinheli 670 417

Cyflenwyr Llefrith,
Hufen ac Wyau
ym Methel, Caernarfon
a Chaeathro

---

## TAFARN GORS BACH
## LLANDDEINIOLEN

Dymuna
Bob, Mair a'r staff
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL



---

CYFARCHION Y TYMOR
a
DYMUNIADAU GORAU AM 1978
oddi wrth

## C.& M.OWEN
## TREFLYN STORES
## BETHEL

Y FELINHELI 670 237

---

## *Blwyddyn Newydd — Car Newydd*
## *1978*




NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
I CHWI OLL

BRITISH LEYLAND
**Morris**

## *LLE ARALL OND...*

## GAREJ MINFFORDD BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 451

**T.R.& S.EVANS**
## GAREJ GWALIA
## CAEATHRO
Ffôn: CAERNARFON 3096

ARCHEBWCH
EICH
CIG
AR
GYFER
Y
NADOLIG
RWAN!
oddi wrth

**WAVELL ROBERTS**

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn Caernarfon 3574

*i fod yn saff o gael y gorau*
*Danfonir i bob cwr*

---

DYMUNA
PAT ac ERNIE

**GWESTY'R RHYTHALLT**
**Llanrug**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

---

ARCHEBWCH ANGHENION
Y NADOLIG RWAN YN

STORFA
**Mace**
**S.&E. Jones**
**Llanrug**

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD

**S. JÕNES**

CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
*(WHOLESALE FRUITERER)*
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790


---

# CYFARCHION NADOLIG O LANRUG

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon**
**LLANRUG**

FFÔN
WAUNFAWR 254

---

**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

FFÔN :
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa

---

A fydd eich anrheg Nadolig chi wedi ei daflu o'r neilltu erbyn Ionawr 1af 1978?
Mae arian yn brin – Buddsoddwch nhw yn eich cartref i gael gwerth parhaol trwy gydol y flwyddyn.
Dewch i weld ein:
**Ceginau, Ladylove a Flair; Baddonau (stoc anferth); Gratiau (ar brisiau gostyngol); Paent; Papur Papuro a Sgwariau Carpedi Dulux Teils; Cushionfloor a Drysau "Spacesaver" Marley**
**+ Anghenion Adeiladu – tywod, sment, landeri, ffitiadau plymio ac ati a Chymhorthion D.I.Y.**

**A.Winstanley**

FFORDD
YR ORSAF

**LLANRUG**
FFÔN: CAERNARFON 2122

Ar Agor Llun – Gwener 9–5; Sadwrn 9–4
(Ar gau drwy'r dydd – dydd Mercher)

---

CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU AM 1978
oddi wrth

**y Siop Sglodion**

PONTRHYTHALLT

LLANRUG

CHIPS MWYA' BLASUS Y FRO!

---

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth




YR ARBENIGWYR AR
ATGYWEIRIO MECANYDDOL A
THRWSIO WEDI DAMWAIN

Gwasanaeth 24 awr – Gorsaf M.O.T.

Stuart a Janet Anderson

**SNOWDON GARAGE**
LLANRUG
Ffôn Caernarfon 3506

# DINORWIG

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** – Yn ôl adroddiad y casglyddion mae cynllun codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol yn mynd ymlaen yn foddhaol. Os oes cartrefi heb ddechrau cyfrannu byddwn yn ddiolchgar am eich cefnogaeth. Yr ydych yn gwybod beth yw target yr ardal ac nid teg fuasai rhoddi pwysau ychwanegol ar y cartrefi sydd yn cyfrannu yn barod. Fel ysgrifennydd a swyddogion y Gronfa rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth. Cewch adroddiad llawn o'r arian fydd wedi dod i law yn y rhifyn nesaf o'r papur hwn.

**TWRNAMENT SNWCER A BILIARDS** – Mae'r elfen gystadleuol yn amlwg iawn yn y gemau biliards a snwcer sydd yn cael eu chwarae yn y Ganolfan leol ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw fod y twrnament leol wedi dechrau ers dros fis bellach, ac erbyn y Nadolig byddwn yn gwybod pwy yw goreuon y fro yn y gemau hyn. Mae brwdfrydedd mawr yn cael ei ddangos gan bawb o bob oedran yn y twrnament – gydag ambell i gemau hynod o glos a diddorol. Mae croeso i bawb droi i mewn atom i wylio a dilyn y twrnament.

**MUDIAD ADFER** – **Dawnsfeydd** – Mae gweithgareddau'r gangen leol yn mynd o nerth i nerth y dyddiau hyn. Profodd dawnsfeydd y misoedd diwethaf yn hynod o lwyddiannus a chynhelir y ddawns nesaf ar nos Wener Rhagfyr 16. Oherwydd llwyddiant y grŵp 'Sos Coch' yn y ddawns rai misoedd yn ôl, maent wedi cytuno i ddod atom i berfformio yng nghwmni Disgo'r Graig yn ein Dawns Nadolig yn y Ganolfan leol. Felly cofiwch y Dyddiad. Bydd elw'r noson yn mynd at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.

Bu rhai o aelodau'r gangen yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf yn trefnu cludiant i ddawnsfeydd ym Methesda a Phorthmadog. 'Roedd y grŵp 'Crysbas' yn perfformio ym Methesda, a'r grŵp 'Shwn' ym Mhorthmadog. Diolch Iola a Meirion am wneud y gwaith yma.

**Cyhoeddi llyfr bro cynta' Dinorwig a'r Cylch** – I ddathlu'r achlysur hanesyddol yma, mae noson arbennig wedi ei threfnu ar nos Fercher Rhagfyr 14 am 7 o'r gloch. Mynediad 20c – pryd y dangosir y ffilm 'Ffarwel Roc' (Ffilm BBC ar gau y chwarel yn 1969) a hefyd bydd y parti lleol 'Parti Cynfi' yn ein diddanu gydag eitemau o ganeuon. Ar ddiwedd y noson bydd cyfle i'r gynulleidfa brynu copïau o'r llyfr. Teitl y llyfr yw 'Hiraeth y Chwarelwr' – llyfr wedi ei seilio ar fywyd ac atgofion Mr. William Williams Chwarel Goch. Noson fawr a dweud y lleiaf ac felly peidiwch â'i cholli. Dewch yn llu – bydd croeso i bawb.

**Gwerthiant y llyfr** – Mae Golygydd 'Eco'r Wyddfa', Arwel Jones, ynghyd â threfnydd gwerthiant y papur, Mr. Selwyn Williams wedi cytuno i chwi archebu'r llyfr trwy'r Eco. Rydym yn gwerthfawrogi eu cydweithrediad yn fawr iawn.

**Mae'n talu hysbysebu** – 'Disgo'r Graig' – dyna oedd ymateb yr hogia i'r hysbyseb a ymddangosodd yn y papur hwn dro yn ôl. Ymddengys ar hyn o bryd eu bod am fod yn brysur iawn yn ystod y Nadolig. Mae'r hogia yn gwneud gwaith da ac yn haeddu cefnogaeth.

**CYMDEITHAS UNDEBOL** – Nos Iau, Tachwedd 3, yn y Ganolfan dan nawdd y Gymdeithas cafwyd sgwrs ar addysg gan y Cynghorydd I.B. Griffith, Caernarfon. Llywyddwyd gan Mr. Hugh Thomas, a thalwyd diolchiadau gan Mr. David L. Hughes.

Yn y Ganolfan nos Iau Tachwedd 17 cafwyd Seiat Holi dan ofal y Parch. Ifor L. Williams, Bangor. Trafodwyd amryw bynciau a mwynhawyd noson ddifyr. Aelodau'r Panel oedd Mrs. A. Griffith; Mrs. K.L.Hughes, Mrs. H.M. Roberts; Mri. Hugh Thomas ac O.R. Williams. Talwyd diolchiadau i'r Panel gan y Parch. Ifor L. Williams a Mri. David L. Hughes ac R.H.Williams.

**NOSON GOFFI** – Nos Fawrth, Rhagfyr 6ed cynhelir Noson Goffi yng Nghanolfan Dinorwig. Bydd Byrddau Gwerthu ac adloniant wedi eu trefnu gan aelodau'r Clwb Ieuenctid. Drysau'n agor am 7.00. Bydd yr elw at anrhegion Nadolig i'r pensiynwyr.



Llun criw o ferched o Lanrug ar eu ffordd i ble a pha bryd? Mae rhai o'r wynebau yn gyfarwydd. Pwy oeddynt? (Y llun trwy garedigrwydd Mrs. Gwen Ann Williams Bryn Teg, Llanrug).

# BRYN-REFAIL

**CLWB DEG A DEUGAIN** – Cafwyd noson eithriadol o lwyddiannus yng Nghae Chwarae'r pentref nos Sadwrn, Tachwedd 5ed gyda choelcerth anferth ac arddangosfa tân gwyllt. Darparwyd barbeciw gan chwiorydd ieuainc y pentref a dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth er hyrwyddo llwyddiant yr arbrawf.

**GOBEITHLU** – Bu cyfarfod o'r Gobeithlu, nos Lun, Tachwedd y 7fed. Cymerwyd y defosiwn gan y Llywydd Mrs. Shirley Roberts. Trefnwyd deunydd ar gyfer cyfarfodydd dilynol dan ofal Mrs. Rhian Jones yr ysgrifenyddes ynghyd â chynrychiolaeth dda o rieni'r plant. Etholwyd Mrs. Carol Houston yn drysorydd. Hyfforddwyd y plant mewn caneuon a charolau gan Mrs. L.P.Williams. Cafwyd noson ar ffurf cyngerdd gan y plant ar Dachwedd 14eg, gyda Janet Jones yn cymryd y rhan agoriadol. Bu gornest rhwng dau dîm mewn cystadleuaeth holi nos Lun, Tachwedd 21ain. Trefnwyd y noson gan Mrs. Rhian Jones a daeth y ddau dîm yn gyfartal. Neil Roberts oedd yn gofalu am y rhannau arweiniol.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL** – Nos Iau, Tachwedd 6ed cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri. Daeth cynulliad cryf i wrando ar y Parch. Gareth Maelor Jones, Bontnewydd yn darlithio ar y testun "Hiwmor." Darparwyd te a chyflwynwyd anrheg raffl gan Miss A.M.Williams a Mrs. L.P.Williams ac fe'i enillwyd gan Mr. Bertie Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar ffurf cystadleuaeth holi dan ofal Mr. Cledwyn Williams, Llanrug, nos Iau, Rhagfyr 1af.

**DYWEDDÏO** – Llongyfarchiadau i Miss Bethan Wyn Roberts, merch Mr. W.M.Roberts, Glandŵr a Mr. Ken Lambert, mab Mr. a Mrs. L. Lambert, 80 Pentre Helen, Deiniolen.

**PRIODAS ARIAN** – Llongyfarchwn Mr. a Mrs. R.W.Evans, Ty'n Buarth ar ddathlu eu priodas arian ar Dachwedd y 5ed.

**CLWB YR HENOED** – Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr. H.Lloyd Owen a siaradodd ar anifeiliaid a Natur Rhoddwyd y te gan Mrs. P.Jones a Mrs. B.Knox. Diolchwyd gan Mr. G.Pritchard.

Nos Fawrth, Tachwedd 8fed cafwyd noson ddifyr yn gwrando ar recordiad o ganu emynau o'r Albert Hall. 'Roedd y te yng ngofal Mrs. J.Williams a Mrs. J.Hughes. Diolchwyd gan K.Foulkes, Bryn Derw.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Croesawyd dwy chwaer o Sefydliad Caernarfon nos Iau, Tachwedd 17eg i'r cyfarfod blynyddol. Darparwyd te gan Mrs. Betty Owen a Mrs. Pat Jones. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mrs. Eifiona Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. H.J.Jones ac fe'i henillwyd gan un o'r gwestai.



Dyma rai o aelodau Sefydliad y Merched Brynrefail ar ymweliad â'r Frenhines pan ar wibdaith i ddinas Llundain beth amser yn ôl.

**YN GWELLA** – Da yw deall fod Mr. Edwin Jones, Cytir wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan hefyd i Mrs. D. Wager, Y Llythyrdy a Mrs. J. Walton, Rhydau Duon ar ôl triniaethau llawfeddygol yn ddiweddar a Mrs. Betty Owen, Tros yr Afon wedi damwain.

**CLWB DEG A DEUGAIN ENILLWYR** –
22/10/77 : (1) Derek Davies, Llythyrdy. (2) Jennie Roberts, Penllyn Cottage. (3) Pat Jones, Cae Coch.
29/10/77: (1) Glyn Williams, Caernarfon. (2) Owen Roberts, Llwyn Helyg. (3) Elizabeth Owen, Tros yr Afon.
5/11/77: (1) Saddie Jones, 11 Trem Eilian. (2) Len Parry, Gorffwysfa. (3) David Ellis, Gweledfa.
12/11/77: (1) Elwyn Jones, 1 Trem Eilian. (2) Rhian Jones, 3 Trem Eilian. (3) Ada Jones, Ty'n Twll.
19/11/77: (1) Geraint Morris, Dinorwic House. (2) Glyn Owen, Tros yr Afon. (3) Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig.

# TAN-Y-COED

**O'R YSBYTY** – Croeso adre o'r ysbyty i Mr. William Pritchard, Garnedd. Y mae Mr. Pritchard yn gwella'n foddhaol ar ôl triniaeth feddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

**PEN-BLWYDD HAPUS** – Llongyfarchiadau i Mr. Joseph Ellis, 3 Tai Bryngwyn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 85 oed ddydd Mercher, Tachwedd 16.

**MR. A MR. ASHTON** – Croeso adre hefyd i Mr. a Mrs. Ashton a'u plant Kenneth a Mary, 10 Tai Bryngwyn. Ymadawodd y teulu ddwy flynedd yn ôl i Ogledd Ddwyrain Nigeria, lle mae Mr. Ashton yn Beiriannydd mewn Planhigfa Siwgr. Bydd y teulu yn dychwelyd i Nigeria fis Ionawr 1978 a bwriadant aros yno am flwyddyn arall.

# BETWS GARMON

**YN YR YSBYTY** – Dymunir adferiad llwyr a buan i Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Iau, Tachwedd 10fed croesawyd Sue Lloyd a'i ffrind o 'Odyn Copr' i arddangos gwaith enamel. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Shirley Roberts a darparwyd y te gan Mrs. Rhian Jones a Mrs. Helen Jones.

Trefnwyd Trip Siopa Nadolig i Gaer ddydd Sadwrn, Tachwedd y 26ain.


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

* * *

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN.

# LLANRUG

**CRONFA RIGARUG** – Nos Iau, Tachwedd 10ed, cynhaliwyd Ffair Aeaf lwyddiannus iawn yn Neuadd Ysgol Brynrefail er gwaethaf ymdrechion y gweithwyr pŵer i dywyllu'r cyfan! Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n gweithio i wneud y noson mor llwyddiannus, ac i'r rhai eraill a fu'n gysylltiedig â'r gwaith mewn unrhyw fodd. Gwnaethpwyd elw o £386.

Erbyn hyn, mae Cronfa Rigarug yn nesu at £600 a gobeithir croesi'r trothwy hwn cyn y Nadolig, gan fod gwerthu da ar y cardiau, nid yn unig yn ardal Llanrug, ond o'r tu allan hefyd, a hyd yn oed mewn rhai ardaloedd yn Lloegr!

Dichon y ceir rhai gweithgareddau eraill cyn y Nadolig – gwyliwch ffenestri'r siopau am fanylion. Trefnwyd rhaglen lawn hyd fis Gorffennaf 1978 gan y Swyddogion. Ceir mwy o fanylion yn rhifyn nesaf yr Eco.

Mae amryw o bobl wedi addo rhoi benthyg arian i Fanc y Beirdd – gorau po gyntaf y daw'r arian i law'r trysorydd fel y gallant ddechrau dodwy.

Unrhyw wybodaeth pellach am weithgareddau Cronfa Rigarug i'w cael oddi wrth:

**Eurwyn Ll. Evans, Carwyn, Ffôn: C'fon 4989; neu Dafydd W. Thomas, Bron-y-Nant, Ffôn: C'fon 3515.**

**CYMDEITHAS UNDEBOL (Bryngwyn Hermon, Pontrhythallt a Thanycoed)** – Nos Fawrth, Tachwedd 15ed gyda Mr. Emrys Owen yn llywyddu, cafwyd noson ddiddorol iawn gyda Mr. Emrys Evans, Monallt yn dangos lluniau o'r arferiad o "Addurno Ffynhonnau". Diolchwyd iddo gan Mr. D. Glynne Owen a'r Parch. W.O. Roberts.

**UNDEB Y MAMAU** – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Undeb y Mamau yn y Rheithordy ddechrau mis Tachwedd. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Rheithor ac ef hefyd a lywyddai. Dewiswyd y Swyddogion canlynol: Cofrestrydd: Mrs. D.G. Williams, Y Rheithordy; Llywydd: Mrs. J.E. Watkins, Cwm-y-glo; Ysgrifenyddion: Mrs. D. Pierce, Glan'rafon a Mrs. L. Orritt, Cwm-y-Glo. Darparwyd te gan Mrs. Pierce, Glan'rafon, Mrs. A. Williams, Llys Llywelyn a Mrs. E. Lloyd Jones, Lyndale.

**GOBEITHLU CAPEL MAWR** – Cafwyd dau gyfarfod o ddysgu emynau a charolau dan ofal Mrs. Carys Jones, Gwên-y-Wawr. Dangoswyd ffilmiau mewn tri chyfarfod arall gan Mrs. Nansi Roberts gyda Mr. John Williams, Gweledfa yn cynorthwyo. Dechreuwyd y cyfarfodydd trwy ddefosiwn gan Manon Llwyd Evans, Gwawr Owen, Caryl Pugh, Susan Jones, Petula Williams, Aled Jones, Derek Jones, Nia Wyn Jones a Gwenllian Parry. Enillwyr y cystadlaethau oedd Ruth Jones, Michelle Jones, Sandra McGuinnes, Caryl Pugh, Dafydd Meredydd Jones, Mandy Williams, Derfel Jones, Alan Jones, Carol Jones a Tracey Jordan. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts, a Mrs. Mair Jones, Ogwen oedd yn cyfeilio.

**OEDFA ARBENNIG** – Bore Sul, Tachwedd 6ed, gweinyddwyd yr Ordinhad o Fedydd ynghyd â'r Ordinhad o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog, y Parch. W.O. Roberts. Bedyddiwyd Cenwyn, mab bychan Mr. a Mrs. Richard Owen Jones, 4 Stad Minffordd a chroesawyd ei rieni yn aelodau newydd. Croesawyd teulu ieuanc arall yn aelodau, sef Mr. a Mrs. Hefin Jones, Pant Mwyn.

**ATGYWEIRIO EGLWYS SANT MIHANGEL** – Mae'r gwaith hwn yn mynd ymlaen yn rhagorol a gobeithir ei gwblhau cyn hir. 'Rydym yn ddiolchgar iawn i amryw o'r gwragedd a fu'n ddiwyd yn glanhau ar foreau Sadwrn ac yn rhoi'r lle mewn trefn erbyn y Sul. 'Roeddym yn falch hefyd o weld rhai plant yn ymddiddori yn y gwaith.

**CLWB BLODAU'R GRUG** – Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa fel arfer, o dan lywyddiaeth y Rheithor. Estynnwyd croeso i aelodau newydd ac anfonwyd cofion at yr aelodau oedd yn wael. Y gŵr gwadd oedd Mr. T. Thomas, Berwyn, a rhoes brynhawn difyr iawn gyda'i atgofion am rai o hen gymeriadau'r ardal. Cynhelir Gwasanaeth Carolau'r Clwb, brynhawn dydd Iau, Rhagfyr 8ed.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd cyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 8ed gyda Mrs. Nansi Roberts yn y gadair. Dagnoswyd addurniadau Nadolig gan Mrs. Cemlyn Williams, Caernarfon. Diolchwyd iddi gan Mrs. Evans, Lloc.

Bydd y cinio Nadolig yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar y 13eg o Ragfyr a derbynnir enwau erbyn Rhagfyr 3ydd. Rhoddodd Mrs. M. Lloyd Williams hanes y Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth.

Diolchwyd am y lluniaeth gan Mrs. Mary Roberts.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** – Daeth nifer dda ynghyd i'r Noson Goffi, nos Iau, Tachwedd 3ydd. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael a dymuno adferiad buan iddynt. Diolchwyd i'r cyfeillion a anfonodd roddion mewn arian a nwyddau at y bwrdd gwerthu. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Ffair Nadolig Flynyddol a gynhelir nos Iau, Rhagfyr 1af. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. T. Evans, Lloc a diweddwyd trwy gyd-adrodd y fendith dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

**CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR** – Dechreuwyd y tymor yng nghwmni Mr. Derfel Gruffudd, Prifathro'r Ysgol Gynradd. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddo. Ei destun oedd 'O Fethesda i Lanrug'. Llywyddwyd gan Mrs. W.O. Roberts a chroesawodd Mr. Gruffudd yn gynnes iawn. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs. J. Roberts, Park Villa a Mr. O. Davies, Plas Gwyn. Cyfeiliwyd gan Mrs. Jones, Ogwen.

Yn yr ail gyfarfod, y gŵr gwadd oedd Mr. Selwyn Jones, Pant Clyd. Dangosodd ffilm ar 'Atal Troseddau'. Gofynnwyd nifer o gwestiynau iddo a chafwyd atebion buddiol. Llywyddwyd gan Mr. Gwilym Owen, Glasgoed, a diolchwyd i'r siaradwr gan y Parch. W.O. Roberts a Mrs. Beryl Thomas, Gerallt.

**LLONGYFARCHIADAU** – I'r Seindorf a ddaeth yn gyntaf allan o saith mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd i Fandiau Gogledd Cymru yn Connah's Quay.

**GWOBRWYO AM WASANAETH HIR** – Llongyfarchiadau i Mr. Owen Jones, Mr. John Williams, Gweledfa a Mr. Harry Roberts, 2 Tai Plastirion a wobrwywyd yn Connah's Quay am roddi dros hanner can mlynedd o wasanaeth i'r Seindorf.

**PWYLLGOR MERCHED Y SEINDORF** – Gyda Mrs. Heulwen Williams yn y gadair, penderfynwyd cynnal y Te Parti Blynyddol i ieuenctid a phlant aelodau'r Seindorf a'r Pwyllgorau ar Ragfyr 10ed. Cydymdeimlwyd a Mrs. Marian Jones ar farwolaeth ei brawd.

**CYDYMDEIMLO** – Mae'n cydymdeimlad llwyraf â theulu'r diweddar Mr. Hugh Roberts, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Mr. H.O. Evans, Llys Myfyr ar farwolaeth ei ferch Mrs. A.M. Williams yng Nghaernarfon.

**GWELLHAD BUAN** – Dymunir adferiad buan i Mrs. R.D. Roberts, Y Berllan, Mrs. Sally Jones, 29 Bro Rhyddallt a Mrs. Gaynor Owen, 2 Ffordd Glanffynnon ar ôl bod yn yr Ysbyty.

**CYSTADLEUAETH ANAGRAMAU** – Ymgeisiodd dros hanner cant yn y gystadleuaeth hon a oedd yn gysylltiedig â Ffair Aeaf Rigarug. Yr ateb cywir cyntaf dynnwyd allan gan Mrs. Jones, Bryn Fedwen yn y Llythyrdy oedd eiddo'r Parch. D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy. Llongyfarchiadau iddo!. Diolchwn iddo hefyd am ddychwelyd y wobr o £1 i Gronfa Rigarug.

Dyma'r atebion: New York, Ostend, Tangiers, Munich, Cape Town, Montreal, Geneva, Chicago, Istanbul, Melbourne, Barcelona, Southampton, New Orleans, Rio de Janeiro, Edinburgh, Los Angeles, Tripoli, Belfast, Gretna Green, Aberdaron, Dolgellau, Amlwch, Llandeilo, Llangollen, Betws-y-Coed, Blaenau Ffestiniog, Carmel, Llanberis, Penrhyndeudraeth.

**PANTOMEIM** – Cynhelir pantomeim poblogaidd Cwmni Theatr Cymru, 'Jac y Jyngl' yn Theatr Gwynedd, Bangor dros y Nadolig. Bydd bws yn cael ei drefnu i gychwyn o Lanrug ar gyfer perfformiad 2.30 p.m. ddydd Gwener, Rhagfyr 30ain. Ymholwch â Siân Williams, 'Cartref', Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 3577.

## Pen-blwydd Hapus

**MAE Canolfan Tanybont Caernarfon yn flwydd oed ar y 24 o Dachwedd.**

**Mae wedi cael blwyddyn lwyddiannus a llawer o ddoniau wedi bod ar ei llwyfan, fel cantorion, darlithwyr ac actorion mawr.**

**Mae'r aelodau i gyd yn dymuno iddi lwyddiant eto am flwyddi maith a gweld eto lawer o ddoniau a chroesawu yr holl Gymry ar Wasgar.**

**CANOLFAN YN FLWYDD OED**

**Wel dyma y Ganolfan**
**Yn dathlu ei Blwydd Oed,**
**Ni chafodd Cymry Arfon**
**Well lle na hon erioed.**
**Darlithoedd gwych sydd yma**
**Ym mysg cantorion mawr,**
**A Chodi'r To nos Sadwrn**
**Nes crynu fydd y llawr.**

**Mae wedi bod mewn llewyrch**
**Drwy'r flwyddyn ar ei hyd,**
**Ac wedi gweld ymwelwyr**
**O bedwar rhan y byd**
**Mynd heibio wnaeth y flwyddyn**
**Yn ysgafn ar ei hynt.**
**Ond muriau y Ganolfan**
**Fu'n gadarn i bob gwynt.**

**Mae yma ganu gwerin**
**'N adseinio drwy y lle,**
**A llawer emyn hefyd**
**Gyrhaeddodd glust y ne.**
**Bob llwyddiant i'r swyddogion**
**I gario 'mlaen â'r gwaith**
**Fel byddo'r hen Ganolfan**
**Yn fyw am flwyddi maith.**


**Twm Bethel**

**ROBERT JOHN WILLIAMS**
**(Bobi Tŷ Capel, Stryd y Ffynnon)**
**– Bu farw Awst 25ain 1977 –**

**Dinistriodd y gelyn olaf – angau!**
**Cadarn fu; canys Duw a'i creodd**
**er gogoniant i'w enw.**
**Lluniodd ef ar ei ddelw.**
**Bu'n was da a ffyddlon,**
**Galwodd y Tad ef erbyn ei enw.**
**Pan rodiodd trwy y tân**
**Ni losgodd y fflam ef.**
**A phan gerddodd drwy afonydd**
**Ni lifent drosto.**
**Tyst fu i'w Greawdwr a'i Waredydd,**
**Nid oedd iddo frenin arall.**
**Troediodd y llwybyr cul**
**A cherddodd drwy ddyfroedd cryfion**
**Paratôdd ffordd mewn sychdir cras,**
**ac afonydd mewn mawr ddiffeithwch.**
**Rhoddodd foliant i'r Arglwydd –**
**Mewn cân**
**Mewn gair**
**Mewn gweithred,**
**Ac ni flinodd ŵr ag arogl-darth,**
**Ond rhoddodd aberth moliant i'w unig wir Dduw.**
**Ni cherfiodd ei law ddelw gerfiedig,**
**canys deall a gwybodaeth**
**a oleuodd ei ffordd at Dduw.**
**Trigodd yn nirgelwch y Goruchaf,**
**Ac yn dragwyddol yr erys yng nghysgod yr Hollalluog.**
**Ni ddigwydd iddo niwed,**
**Duw a'i cysgoda â'i adenydd.**
**Nid oes ofn mwyach – canys**
**Dinistriodd y gelyn olaf!**

*Dilys Baylis.*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

Mudiad Adfer – Dinorwig

DAWNSFEYDD
A
PHARTION NADOLIG
A'R
FLWYDDYN NEWYDD
Beth am adloniant gan

Disgo'r Graig

DISGO GORAU'R FRO

Cysyllter â

Kelvin Pleming, 1 Maes Eilian, Dinorwig, Caernarfon
Meirion Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig, Caernarfon

*TELERAU RHESYMOL*

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**'DYDWI ddim yn gweld yr Wyddfa 'rwan o Ysgol Rhiwlas, a rhaid i mi gyfadde' mae gen i hiraeth ar ei hôl.**

'Roedd hi'n arfer sbecian arnom yn Nosbarth 1, Ysgol Dolbadarn, a chawsom ninnau amser difyr wrth ei gwylio hithau. Ydach chi blant Dolbadarn yn ei chofio hi yn gwisgo ei sgert mini tua blwyddyn yn ôl, ac yn mynnu ymddangos mewn coban laes yn gynnar yn y flwyddyn newydd? Sut mae'n gwisgo eleni ys gwn i?

Mae'n chwith gen i fethu â gweld ffenast Bwlch y Nant hefyd, weithiau'n agored led y pen, ac ar droeon eraill ar gau.

Yn aml iawn, byddai ffenast Bwlch y Nant yn hynod o bryfoclyd, ac yn mynnu gostwng ei llenni ar brynhawn Gwener, pryd y byddai'r hogiau a minnau yn edrych ymlaen at gael mynd i'r cae i chwarae pêl-droed.

### FFENAST BWLCH Y NANT

**Mae'r ffenast ar gau ym Mwlch-y-Nant**
**Hen ddiwrnod go ddiflas gawn-ni heddiw blant,**

**Disgynnodd y llenni, gorchuddiwyd y fro**
**A hithau'n ddydd Gwener, wel dyna hen dro.**

**Tarth stestion Wyddfa yn gwmwl o stêm,**
**Waeth rhoi'r ffidil yn 'to ddim, 'does obaith am gêm,**

**Mae grisiau'r Elidir dan blanced hud,**
**(Os gwn i 'di'r Wyddfa yna o hyd?)**

**Glaw-slei-bach sy' fel glud ar y coed,**
**Hen gena' pryfoclyd fu smwclaw erioed.**

**Ond daw 'hwfyr' o wynt drwy'r Bwlch cyn yr hwyr**
**I sugno y chwyslaw a'r caddug yn llwyr.**

**A bydd swildod y machlud ar ôl ager y glaw**
**Yn afonydd o waed ar y gorwel draw**

**A daw rhywun yn gynnar bore 'fory blant,**
**I agor y ffenast ym Mwlch-y-Nant.**

Ie, tymor "ffenast ar gau" ydi hi ym Mwlch-y-Nant yr adeg hon o'r flwyddyn reit siŵr. Tachwedd, mis y tuchan, wedi lapio ei siôl o niwl am wddw'r mynyddoedd,a thros draed y bryniau, ac anfynych iawn y bydd ffenast Bwlch-y-Nant yn agored led-y-pen.

Fodd bynnag ma' 'na rywbeth yn braf mewn noson oer o aeaf hefyd, yn enwedig o flaen tanllwyth o dân, a'r fflamau'n clecian eu storiau. 'Does gen i fawr i'w ddweud wrth y gwres canolog yma. Hen wres 'oeraidd' fydda' i yn ei gael o.

'Dydio ddim yn dod â'r un cynhesrwydd i'n haelwydydd ni rhywsut — hen gynhesrwydd ffug. Ond dyna fo — hen drafferth ydi llnau grât hefyd ynte!

### Y LLINELL GOLL!

Mae'n ddifyrrach o lawer, mi gredaf i, i geisio llunio llinell goll yn ystod y nosweithiau gaeafol 'ma nag yn ystod nosweithiau hir yr haf. Mae amryw ohonoch wedi gofyn am gystadleuaeth llinell goll arall. Dyma'r pennill i'w gwblhau:

**Saith deg saith sy'n dod i'w therfyn,**
**Jiwbili fu'n hawlio'r flwyddyn,**
**Hoffwn weld y flwyddyn nesa'**
**— — — — — — — — —**

Anfonwch eich llinellau i:
**Crud yr Awen, Bethel** — post swyddogol neu answyddogol fel arfer.

Beth am anfon carolau neu gerddi â naws y 'Dolig iddynt erbyn y rhifyn nesa'. Peidiwch a bod yn swil — os "prin yw'r arian yn y god" — prin yw'r cerddi yn y fasged hefyd.

Hwyl am y tro,
Selwyn.


NEWYDD O'R WASG
**DOCTOR ALUN**
*Bywyd a gwaith Yr Athro R. Alun Roberts*
**Melfyn R. Williams**
Difyr, diddorol. £1.75
Y Lolfa
Talybont Ceredigion ffôn 304



NADOLIG LLAWEN...
gyda **Gêm y Steddfod**!
Oriau o hwyl i'r teulu i gyd!
£2.95 o bob siop, neu £3.30 yn syth oddi wrth
Y Lolfa
TALYBONT DYFED SY24 5ER


# 'HIRAETH y C

## LLYFR BRO CYN

**BYDD nos Fercher, Rhagfyr 14 yn noson fawr yn Ninorwig, yn wir, bydd yn noson hanesyddol. Yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7.00 o'r gloch cyhoeddir llyfr bro cyntaf Dinorwig a'r cylch.**

"Hiraeth y Chwarelwr" yw'r llyfr ac y mae'n cynnwys atgofion chwarelwr sef Mr. William Williams o Ddinorwig. Cyhoeddir y llyfr gan Gangen Dinorwig a'r Cylch o Fudiad Adfer. Dangosir y ffilm "Ffarwel Roc" yr un noson. Ffilm yw hon a deledwyd gan y BBC am y tro cyntaf ym mis Medi 1969. Yna cyflwynir eitemau gan Barti Cynfi. Ar ddiwedd y noson bydd copïau o'r llyfr ar werth. Bydd copïau i'w cael yn rhai o siopau lleol hefyd a gellir archebu rhai drwy gysylltu â gwerthwyr lleol *Eco'r Wyddfa.*




*William Williams*

### GWRANDO A CHOFNODI

Sonnir yn aml yng Nghymru heddiw am wrhydri amrywiol 'y genhedlaeth ifanc eofn a mentrus' gyda pheth canmoliaeth edmygus o ambell i du annisgwyl weithiau. Fel un o'r genhedlaeth honno a gafodd y fraint o dyfu i fyny ymlhith 'gwŷr glew y garreg las' buan y deuthum i sylweddoli nad yw eofndra a mentr yn bethau cwbl ddieithr hyd yn oed i ni'r Cymry. Ac wrth wrando hen chwarelwr a fentrodd i gyfandir pell, a threulio saith mlynedd o'i oes yno cyn dychwelyd, yn traethu ei atgofion, meddyliais y byddai'n dda a difyr o beth pe gallai mwy nag un ei wrando. Gyda hyn mewn golwg euthum ati i geisio cofnodi rhai o'r hanesion gan anelu at gadw blas y gwreiddiol.

Cefais gymorth parod gan William Williams a'i fab Robin i osod yr atgofion ar dâp, a bu hynny ynddo'i hun yn werthfawr. Bu fy nhad, sydd yntau'n chwarelwr profiadol, yn gwylio'n gyson bod y llyfr yn cadw'n ffyddlon i'r llais, a bu'n gymorth hawdd ei gael pan oedd gŵr y bin a'r teipiadur mewn cyfyngder



*Y chwarelwr wrth ei waith gy*


Wyt ti o blaid Cymru?
Wyt ti o blaid sosialaeth?
Fe ddylet ddarllen
**Y SAETH**
y cylchgrawn sosialaidd Cymreig newydd Annibynnol
30c / rhifyn. Pob chwarter
I'w gael gan:—
Selwyn Williams, Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.
(Caernarfon 3577)


## LLWYDDIANT RH



*Mr. C.W. Williams (Rheolwr) a'i staff gyda am y flwyddyn 1976/77. Daeth Caernarfo ar hyd a lled gwledydd Prydain. Yn 1974/7 cyntaf i enw o Gymru fynd ar y darian.*

*Dymuna Mr. Williams a'i staff ddiolch gawsant i wneud y llwyddiant yma yn bosib*

# CHWARELWR'

## A' DINORWIG

ynglŷn â rhai o arferion gwŷr y caban a'r fargen. Diolch hefyd i Bryn Rowlands am awgrymiadau ieithyddol a chymorth golygyddol.



*Mr a Mrs. Williams tu allan i'w cartref yn Ninorwig.*

Pwysleisir mai llyfr William Williams, un o hogia'r chwarel, yw hwn yn y diwedd, llyfr un y bu ffon ei fara hefyd yn ffon bywyd iddo – un,yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, a ddewisai 'godi chwarel o flaen bob dim arall'.

RHOI A DERBYN

Nid mewn hunan-dosturi dagreuol y mae'r chwarelwr William Williams yn bwrw'i hiraeth yn y gyfrol fywiog hon, ond fel un a ddysgodd yn gynnar mai rhoi a derbyn bob yn ail yw byw. Dyna ddywed atgofion y plentyn yn Neiniolen, y gŵr ifanc ar gyfandir pell a'r 'dyn teulu' ddaeth adra. Cyflwynir y digri a'r difri ochr yn ochr yn naturiol ddiymdrech gydag ysbryd ifanc gwrthryfel ac antur yn cysylltu'r cyfan. Fe'i ceir hyd yn oed ym myfyrdodau'r hen ŵr sydd tu draw i 'Oed yr Addewid...'

Y gwaith cysodi gan Mei, Y Groeslon, a'r argraffu yng Ngwasg Deulyn, Penygroes.

Glyn Thomas



*lyn Thomas, y cofnodwr.*

## STÂD EISIAU ENW

Bu'r ymateb yn ffafriol i'r cais yn y rhifyn olaf i enwi stad o dai i'r henoed yn Llanrug. Daliwch i yrru eich cynigion i'r Cynghorydd Gwyndaf Jones. Cyhoeddir enw'r stad a'r ymgeisydd buddugol yn y rhifyn nesaf.

## OLWR CURRYS



*rian a enillodd siop Currys Caernarfon 1af allan o 480 o siopau'r cwmni sydd thant yn ail i siop o Loegr. Dyma'r tro cwsmeriaid i gyd am y gefnogaeth a*

## YM MYD MODURO



BETH sydd waeth nag oerni nosweithiau hir y gaeaf am effeithio ar eich batri.

Gofalwch felly fod eich batri wedi ei lenwi i'r lefel iawn gyda dŵr pur, ac wedi ei lawn drydanu (fully charged). Sicrhewch fod y terfyniadau (terminals) yn lan ac yn dynn, a gofalwch fod tyniant eich ffanbelt yn gywir. Defnyddiwch oel addas ar gyfer y gaeaf yn eich peiriant.

Gall batri diffygiol achosi ffaeledd mewn bwlbiau heb unrhyw rybudd.

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams B.E.M.

## COFIO G.T. ROBERTS M.B.E., M.A.



**YN ddiweddar agorais Lyfr Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Y Barri a'r Fro 1968. Ail-ddarllenais feirniadaeth y diweddar Melville Richards ar Gystadleuaeth Casgliad o enwau anghyffredin ffermydd a chaeau unrhyw ardal neu blwyf yng Nghymru, gyda'u hystyron. Fel y cofiwch y diweddar Mr. Griffith T. Roberts, Llanrug enillodd y wobr gyntaf gyda chanmoliaeth uchel iawn. "Eiddyn" oedd ffugenw Mr. Roberts. Testun o lawenydd i Gymru ac yn arbennig i ardal Llanrug yw'r ffaith iddo ennill y wobr gyntaf am gasgliad o Englynion Coffa yn y Genedlaethol eleni a chael canmoliaeth uchel y beirniad.**

Dyma ran fechan o feirniadaeth y diweddar Melville Richards:

"Cystal dweud ar y dechrau fod hon yn gystadleuaeth dda,... Traethawd a nodwedd hollol wahanol sydd gan "Eiddyn", ar blwyf Llanrug. Ei ddull ef yw cymryd nifer o enwau anghyffredin (gan lynu wrth eiriad y testun) a rhoi rhestr o ffurfiau sy'n tarddu oddi wrth lawer ffynhonnell cyn mynegi barn ar yr ystyr. Dyma ŵr ar y trywydd iawn. Ac yn wir y mae ei drafodaethau yn hynod wastad a theg ar sail y dystiolaeth sydd ganddo. Mae'n amlwg iddo ddefnyddio'n ddoeth awdurdodau fel y 'Record of Caernarvon', 'Caernarvon Court Rolls', 'Quarter Sessions Records' ac ati. Nid yn unig hynny, ond cribiniodd gofnodion yr eglwys a dogfennau swyddogol eraill, a llwyddodd i roi rhesymau cryfion dros ei esboniadau y rhan fwyaf ohonynt yn bur dderbyniol...

"Wrth drafod yr enw Nantal Gwyn â Eiddyn i gryn drafferth i geisio cysoni ffurfiau fel Nant Howel Gwyn a Nant Howel Wyn. Daw i'r casgliad mai'r ffurf wreiddiol oedd Nant Gwyn, a bod 'pobl y mapiau' wedi llusgo'r enw Hywel i mewn yn ddi-sail... Yr hyn sydd wedi digwydd ar lafar Llanrug ar hyd y canrifoedd yw bod Nant Hywel wedi troi'n Nantal a gollwng yr 'ap'.

"Wrth sôn am ffurf fel 'Pant y Clafferty' mae Eiddyn yn llygad ei le wrth awgrymu mai Pant y Clafrdy ydyw, a bod cyfeiriad at dŷ'r gwahangleifion yn 1336 ym mhapurau'r Penrhyn. Cadarnheir ei awgrym gan y ffurf 'Pant y Clafrdu' yn 1747 ym mhapurau Glynllifon (y Llyfrgell Genedlaethol).

"Nid wyf yn gwbl argyhoeddedig fod Tyddyn Whisgin yn coffau gŵr o'r enw Nicolas Wiscy a oedd yn byw yng Nghaernarfon yn 1378. Gwell gennyf feddwl am enw personol cyffredin iawn gynt sef Hwysgyn, ffurf mi dybiaf ar yr enw Saesneg Hochkin neu Hodgkin.

"Ond dyna ddigon. Darllenais draethawd Eiddyn gyda diddordeb a mwynhad mawr, a gallaf ei gymeradwyo o lwyr galon gan ddyfarnu ei fod yn llawn deilyngu'r wobr."

HUN Y LLENOR

Credaf fod yr englyn canlynol o gopi fy nhad yn bwrpasol iawn hefyd i gofio Mr. G.T. Roberts:

**Hon yw llannerch hun y llenor – noswyl**
**Hanesydd ein goror;**
**Erys ei waith maith fel môr,**
**Draw i oesoedd yn drysor.**

**Glan Rhyddallt.**


## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant


**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# LLANBERIS

**PRIODAS** – Dydd Sadwrn, Hydref 8 yn Upland, California priodwyd Dewi Butler, mab Mr. a Mrs. J. Butler, Snowdon View a Marcia Arias, merch Mr. a Mrs. John Arias, 303 West 7th Street, Upland. Dymunwn bob hapusrwydd i'r par ieuanc.

**CROESO ADREF** – Croeso adref i Mr. a Mrs. J. Butler, Snowdon View ar ôl gwyliau ardderchog yn yr Amerig a Chanada.

Hefyd Mr. a Mrs. Davies, Snowdon Garage. Bu Mr. a Mrs. Davies yn ymweld â'u merch, Jean, a'i theulu yng Nghanada.

**PEN-BLWYDD** – Llongyfarchion i Mrs. M. Price, Islwyn House ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd nos Iau, Tachwedd 24ain o dan lywyddiaeth Mrs. Hannah Jones croesawyd Mrs. M. Wigley, y V.C.O., a Mrs. Thomas a Mrs. Williams fel "tellers." Etholwyd Mrs. Hannah Jones yn llywydd am y flwyddyn nesaf a Mrs. Enid Owen yn is-lywydd. Y gweddill o'r pwyllgor newydd yw: Mrs. Jan Davies, Mrs. Arvonia Evans, Mrs. Beryl Ellis, Mrs. Annie B. Jones, Mrs. Glenys Jones, Mrs. Netta Jones, Mrs. Olwena Morris, Mrs. Nan Owen, Mrs. Dilys Phillips a Miss Doreen Ward. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs. Enid Owen a Mrs. J. Lloyd Jones.

**GWASANAETH COFFA** – Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa wrth y gofgolofn fore Sul, Tachwedd 12fed. Gosodwyd torchau ar y gofgolofn gan aelodau o fudiadau'r pentref a chan unigolion. 'Roedd y gwasanaeth dan ofal y Canon Alun Jones, ac arweiniwyd yr emynau gan Seindorf Arian y pentref.

**SEIAT** – Cynhaliwyd Seiat undebol yng Nghapel Nant Padarn nos Fawrth, Tachwedd 15ed. Cafwyd darlith a thrafodaeth ar "Duw y Mab" gan y Parch. George Brewer.

**NOSON LAWEN** – Yn ddiweddar bu rhai o aelodau Sefydliad y Merched yn cymryd rhan mewn Noson Lawen yn Llanrug.

**PRIODAS** – Dydd Sadwrn, Hydref 29ain, yn eglwys St. Padarn priodwyd Mr. William Roberts, mab y diweddar Mr. a Mrs.J.Roberts, 6 Maes Padarn, a Miss Delyth Lloyd Hughes, merch Mrs. N. Hughes a'r diweddar Mr. E. Ll. Hughes, Maen Coch, Llanwnda. Pob lwc a hapusrwydd i'r ddau.

**LLONGYFARCHION** – i Nia Bryan, Llwyn Eilian, Ffordd Tŷ Du ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

**MARW** – Yn ddiweddar bu farw Mr. William Lewis, Llys Tudur. Brodor o Frynrefail oedd Mr. Lewis, ond 'roedd wedi ymgartrefu yn y pentref ers blynyddoedd maith. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r weddw, Mrs. Maisie Lewis.

**DAMWAIN** – Dydd Gwener, Tachwedd 18 cafodd Robert Williams, Rhes Victoria ddamwain gyda char yn ymyl Dolgellau. Mae ar hyn o bryd yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

**PRIODAS** – Yng Nghapel Gorffwysfa Rhosgadfan ddydd Sadwrn, 19 o Hydref priodwyd Robert Haydn Davies, 7- Rock Terrace ag Iris Thompson, 12 Bro Cadfan, Rhosgadfan. Llongyfarchion i chwi a phob bendith ar eich bywyd priodasol.

**YN YR YSBYTY** – Mae Mr. Huw Jones, Maes Padarn yn ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Hefyd Mrs. Nellie Morris, Dôl Eilian. Dymunwn adferiad buan iddynt.

**O'R YSBYTY** – Da gennym ddeall fod Mr. W.A.Williams, Stryd y Dŵr; Mrs. Katie Roberts, Stryd Turner; Mrs. A.B.Jones, Padarn Stores a Mr. a Mrs. Peris Thomas, Maes Padarn wedi dychwelyd o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddynt i gyd.

**YMDDIHEURIAD** – I'r Parchedig Ganon Alun Jones a Mr. Howell Morris am adael eu henwau allan o hanes Dathliad Capel Coch yn y Rhifyn diwethaf.

**MARW** – Yn ddiweddar bu farw Mr. Gwyndaf Padarn Roberts. 'Roedd Mr. Roberts yn gymeriad arbennig iawn ac yn bianydd penigamp. Yn wir, ni all cymdeithas fforddio colli cymeriadau gwreiddiol fel hyn. Bydd Llanberis yn llawer tlotach o'i golli.

# NANT PERIS

**CYDYMDEIMLAD** – Yn ein rhifyn diwethaf yr oeddym yn dymuno adferiad buan i Mrs. G. Morgan, Gwastadnant. Gyda thristwch y clywsom am ei marwolaeth yn yr ysbyty ym Mangor ar yr 2il o Dachwedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Mr. John Morgan, a'r ddau fab a'u teuluoedd yn eu profedigaeth lem. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent St. Peris ar y 5ed o Dachwedd. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad llwyraf â chwi yn eich colled.

**LLONGYFARCHION** – i Mrs. Mair Searell Jones a'i phriod ar enedigaeth eu mab bychan, y cyntaf yn y teulu yma. Llongyfarchion hefyd i Mr. a Mrs. G. Searell Jones ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Dywed yr hen air "Ni wirionir yn llwyr nes geni yr ŵyr" ac mae taid a nain Gwynant wedi gwirioni. Rhaid llongyfarch hefyd Mrs. Janet S. Jones, Elidir, hithau drwy yr achlysur yma wedi mynd yn hen nain. Bob bendith i'r teulu bach, a da gennym ddeall fod Aled a'i fam yn dod ymlaen yn iawn.

**CROESO ADREF** – i Mr. Arthur Roberts, Gwyndy ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da gennym ddeall fod y driniaeth yn llwyddiant a bod ein cyfaill yn gwella'n raddol ar ôl cyfnod pur hir o waeledd.

**DYMUNIADAU DA** – i Miss Margaret Roberts, 4 Glanrafon a gipiwyd i'r ysbyty ym Mangor yr wythnos ddiwethaf. Mawr hyderwn y bydd iddi hithau gael adferiad llwyr ac y cawn ei gweld yn ôl yn ein plith yn fuan iawn. Brysiwch fendio Miss Roberts.

**FFARWELIO** – â'r Nant fu hanes Mrs. M.E. Pritchard, Tŷ'r Ysgol (Ceunant gynt) a'i mab Aylwyn i'w cartref newydd yn Llanberis. Er ei bod yn wir ddrwg gennym eich colli o'r Nant dymunwn yr un pryd bob bendith a hapusrwydd i chwi eich dau yn eich cartref newydd.

**NOSON FAWR** –

**Mae'r curlaw yn dallu ffenestri fy nhŷ**
**A thymestl wynt Tachwedd a gyfyd ei ru**

dyna eiriau Eifion Wyn yn ei "Ora Pro Nobis" a phrofwyd eu gwirionedd yn y Nant fel mewn llawer man arall mae'n siŵr. Gwnaed peth difrod ar adeiladau a diwreiddwyd rhai coed yn y fynwent, gwifrau trydan a theliffon i lawr ond diolch na chafodd neb anaf ar noson eithriadol o stormus yng nghanol y mis.

**I AWSTRALIA** – Dyna lle mae Mr. a Mrs. Owen. W. Humphreys, Gwastadnant ar hyn o bryd. Talu ymweliad â chwaer Mrs. Humphreys y maent, a da gennym ddeall eu bod wedi cyrraedd yn ddiogel, a gobeithio y bydd i'r ddau fwynhau eu seibiant ac y cânt hwy a'r teulu i gyd fwynhau Nadolig dan wenau'r haul, ond byddwn yn falch iawn o'u croesawu adref yn ôl.

**GOLAU** – Fis yn ôl 'roeddym yn cwyno am arafwch ynglŷn â dod â gwell golau i'r Nant. Erbyn hyn mae rhan isaf y Nant yn fwy goleuedig nag y bu erioed ac yr ydym yn ddiolchgar am hynny. Mawr hyderwn y bydd i'r gwaith sydd yn awr wedi ei ddechrau gael ei gwblhau ac y byddwn i gyd yn y Nant yn rhodio mewn goleuni am weddill y gaeaf yma a phob gaeaf sydd i ddilyn. Diolch i bawb sydd wedi bod yn ymdrechu i gael y gwelliant yma i'r Nant. Maes chwarae i'r plant erbyn yr haf? Wel pwy a ŵyr? Rhaid dal i gredu a gweithredu.

**OEDFA DYWYLL** – Mae yna dro cyntaf i bob dim yn sicr, ac ar nos Sul, Tachwedd 20 cynhaliwyd hanner oedfa'r nos yn Rehoboth mewn tywyllwch. Y tro cyntaf er pan ddaeth trydan i oleuo a chyn hynny hefyd mae'n siŵr. Daeth rhyw nam ar y trydan ar ganol y bregeth ond daliodd y Parch. Brython Davies i bregethu ac aeth y gwasanaeth ymlaen fel arfer. Adferwyd golau i'r Capel a'r tri tŷ oedd ar yr un gwifrau yn fuan iawn gan rai o weithwyr MANWEB ac yr ydym yn ddiolchgar iddynt am eu hymateb buan i'r alwad arnynt.

**CLWB IEUENCTID** – I godi arian at y Clwb bu'r aelodau ar daith gerdded yn cael eu noddi gan yr ardalwyr a deallwn iddynt godi swm da o arian drwy eu hymdrech. Dymunwn iddynt hwy a'u harweinydd ifanc, Mr. Irfon Owen, o Fethel, bob llwyddiant yn ystod tymor y gaeaf.

**GALWAD** – Cafodd Mr. Marcus Wyn Robinson, B.D., Caernarfon, alwad gan dair Eglwys yn Llanberis a Rehoboth, Nant Peris i fod yn weinidog arnynt. Ar hyn o bryd mae yn gorffen ei gwrs yng Ngholeg Diwinyddol Aberystwyth. Bydd yn dechrau yn ei ofalaeth gyntaf yng Ngorffennaf 1978.


DEWCH I
**SIOP THOMAS PRITCHARD**
*IRONMONGER*
BIRMINGHAM HOUSE
LLANBERIS
Ffôn: 206
AM NWYDDAU A CHELFI O BOB MATH I'R CARTREF
OLL AM BRISIAU RHAD!
BARGEINION TOPDEC
bob mis


# CWM-Y-GLO

**BABANOD** – Ganwyd dau faban yn ddiweddar. Ein llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Gwilym Williams, Bryn ar gael mab, Terry – brawd i Carys, hefyd Mr. a Mrs. Noel Parry, 16 Dolafon ar enedigaeth merch – Cheryl Ann.

**EISTEDDFOD '79** – Mewn cyfarfod yn yr ysgol, wedi anerchiad gan ddau aelod o Bwyllgor Cyllid Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, codwyd Pwyllgor i weithio'n lleol er budd yr Eisteddfod. Gobeithir cael rhagor o aelodau maes o law. Etholwyd Mr. Llew Hughes, yn Gadeirydd, Mrs. K. Watkins yn Drysorydd, Mrs. Margaret Williams yn Ysgrifennydd a Mrs. Gwyneth Chick yn Is-ysgrifennydd. Cynhelir Noson Goffi ac Arwerthiant ar Ragfyr 15ed i roi cychwyn ar y gwaith. Croeso cynnes i bawb â diddordeb i ymuno.

**CANOLFAN GYMDEITHASOL** – Caed Cyfarfod Agored ar Dachwedd 22ain, er codi Pwyllgor Canolfan Gymdeithasol a fydd yn gysylltiedig â'r ysgol. Gobeithiwn y caiff ei chodi yn y dyfodol agos mewn cydweithrediad a'r Pwyllgor Addysg. Dewiswyd un cynrychiolydd o bob Mudiad sydd yn bodoli yn y pentref ar hyn o bryd, ynghyd ag eraill. Cawn wybod eto pwy fydd y swyddogion a dymunwn bob llwyddiant i'r Pwyllgor newydd. 'Roedd y Cynghorydd Francis Jones yn bresennol, a manteisiwyd ar y cyfle i gael gwybodaeth ganddo am nifer o faterion perthnasol.

**CYDYMDEIMLO** – Ein cydymdeimlad dwysaf â Mr. a Mrs. Hubert Roberts a'r teulu, Bod Gwynedd, ar farwolaeth brawd Mr. Roberts – Mr. W. Sulwyn Roberts, Pen-y-Groes.

**COLLI BONHEDDWR** – Ym marwolaeth Mr. John Emrys Williams, Llys y Gwynt, collwyd bonheddwr o'n plith. Cartrefodd yma pan gwblhaodd ei yrfa forwrol tua 27 mlynedd yn ôl. Gŵr diymhongar, hynaws a feddai ffraethineb a hiwmor. 'Roedd yn sylwedydd craff a hynod ddifyr ei gwmni. Teimlwn chwithdod mawr o'i golli.

Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel M.C. a'r Tabernacl. Derbynied ei ddwy chwaer – Miss G. Williams a gyd-drigai ag ef, a Mrs. Hughes, a'r teulu i gyd ein cydymdeimlad.

**YN GWELLA** – Balch ydym o weld Mrs. E.G. Owen, Talgwynedd a Mrs. Fowler, Bodlondeb yn gwella yn foddhaol ar ôl iddynt fod yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Gobeithiwn y byddant yn cael meddyginiaeth lwyr a buan. Da iawn gennym ddeall hefyd fod Mrs. Edith Owen, Craig y Don yn gwella'n foddhaol.


**E& E.M.GREEN**
*SIOP GRON*
PENISARWAUN
**Nwyddau Groser Ffrwythau a Llysiau Ffres**
*Dewis rhagorol Croeso cartrefol*

# Atodiad Llanberis

**APÊL (Eisteddfod 1979)** — Erbyn hyn y mae coffrau'r Apêl yn dechrau tincian. Derbyniwyd rhodd o £50 gan y Cyngor Cymuned a mawr yw ein diolch iddynt am roi cychwyn i'r ymgyrch.

Cynhaliwyd Disco nos Wener, Tachwedd 25, a chafwyd elw o £40.

Mae'r casglyddion tai wedi dechrau ar eu gwaith ac fel y mae pethau'n argoeli, yn cael derbyniad boddhaol gan y mwyafrif. Diolch ichwi am eich cefnogaeth.

Bydd Bwrdd Targed yn cael ei roi i fyny yn y pentref fel y gellwch weld chwyddiant y Gronfa.

Nos Wener, Rhagfyr 16, cynhelir Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Nos Wener, Rhagfyr 23, bydd y Seindorf a phlant y pentref yn mynd o amgylch i ganu carolau.

Bwriedir cael Taith Gerdded Noddedig yn ystod mis Ionawr ynghyd a Disco neu Dwmpath Dawns. Bydd y Pwyllgor nesaf nos Fercher, Rhagfyr 7ed, yn Ysgol Dolbadarn am 7.00.

**ORGANYDD** — Yn ddiweddar dathlodd Mrs. Beti Evans, 5 Rhes Minafon, 50 mlynedd o wasanaeth fel organydd yng Nghapel Coch. Gwerthfawrogir ei gwaith yn fawr iawn.


PAT77 19 Ceiniog

* CYNNIG ARBENNIG *

SIOP Y PENTAN

5 RECORD NEWYDD

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON

| | | PRIS NI |
|---|---|---|
| I'R GAD — Dafydd Iwan | £2.29 | — £2.10 |
| CARLO — Dafydd Iwan | £2.29 | — £2.10 |
| JAC a WIL (3) | £2.29 | — £2.10 |
| YN OL I GWM RHYD Y RHOSYN (Dafydd Iwan / Edward) | £2.69 | — £2.50 |
| Hefyd: TARO DEUDDEG (Hogia'r Wyddfa) | £2.69 | — £2.50 |

ANRHEGION NADOLIG GWYCH ! BRYSIWCH !

PWYSIG: *Daw'r cynnig i ben Rhagfyr 10fed 1977. Dewch a'r hysbyseb yma efo chi.*



Recordiau Newydd Nadolig gan Sain

TOCYN RECORDIAU
20c
sain
Gellir cael gostyngiad o 20c ar bob Record Hir a Chaset Sain gyda'r Tocyn yma. Un Tocyn yn unig ar gyfer pob Record.

HOGIA'R WYDDFA yn Taro Deuddeg

SAIN 1111D
Dwsin o ganeuon newydd gan y grŵp mwyaf poblogaidd yn hanes canu pop Cymru !



Dafydd Iwan

SAIN 1108H CARLO a Chaneuon Eraill -
Rhagor o ganeuon cynnar Dafydd Iwan, gydag Edward, yn cynnwys CARLO, BRO AFALLON, Y DYN PWYSIG, MAE'N WLAD I MI, a llawer mwy !

SAIN 1109H I'R GAD !
MAE'NA LE YN TŶ NI, Y "WESTERN MAIL", PEINTIO'R BYD YN WYRDD, PAM FOD EIRA YN WYN, MYN DUW, WELI DI GYMRU, ac ati.
14 o ganeuon gorau DAFYDD IWAN ar un record fendigedig !

SAIN 1110D 'YN ÔL I GWM RHYD Y RHOSYN' -
DAFYDD IWAN ac EDWARD
17 o ganeuon i'r plant, a ston, gyda thaflen eiriau a lluniau
Gwledd o record i ddilyn "Fuoch chi rioed yn morio"



JAC A WIL cyfrol 3

SAIN 1112H
ARFER MAM, ANTI LISA, MI GLYWAF DYNER LAIS, BLE MAE FY MACHGEN HOFF, ac ati.

Mae'r Recordiau hyn i gyd i'w cael ar gaset

HEFYD RECORDIAU NEWYDD gan

GRWPIAU POP ★
SHWN - AR GARLAM !
MYNEDIAD AM DDIM - Rhwng 7 stôl
HERGEST

PARTION ★
CÔR TELYN TEILO
CÔR GENETHOD Y RHOS
PARTI'R BRENIG

UNAWDWYR ★
ELWYN JONES (Llanbedrog) - A yw fy Enw i Lawr ?
DENNIS O'NEILL
MEREDYDD EVANS - 28 o ganeuon gwerin

CYMANFAOEDD ★
CYMANFA EISTEDDFOD WRECSAM '77
CYMANFA CORAU UNEDIG MÔN
CYMANFA ANNIBYNWYR LLŶN AC EIFIONYDD
CYMANFA CÔR EISTEDDFOD CAERDYDD

AMRYWIOL ★
TRADDODIAD GWERIN CYMRU 1
CAROLAU PLYGAIN
DONIAU DYFFRYN DULAIS


# WAUNFAWR

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** — I agor tymor y Gymdeithas ar Hydref 24 cafwyd sgwrs a lluniau o adar a glöynnod byw gan y Parch. H.J. Hughes. Llywyddwyd gan Mr. Emlyn Davies a thalwyd y diolchiadau gan Mr. R.D. Roberts.

Ar gyfer yr ail gyfarfod ar Dachwedd 7 yr oedd Mr. Robert Jones, Tanyfron a Mr. Norman Williams, Llidiart Gwyn wedi trefnu noson ddifyr o eitemau cerddorol a llenyddol.

**CLWB GWYRFAI** — Tachwedd 3, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr. Hugh Hughes, Bontnewydd. Llywyddwyd gan Mr. W.Vaughan Jones a diolchwyd i'r siaradwr gan Mr. Owen Williams, Gwynfa. Miss Oweilda Williams a enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs. Nesfield. Rhoddwyd y te gan Mrs. Mottram a Mrs. W. Lloyd Jones, Gorwel.

Tachwedd 17, mwynhawyd sgwrs Dr. Emily Long, Brynsiencyn ar "Halen" yn fawr iawn gan yr aelodau. Y Llywydd oedd Mrs. M. Morgan Jones, Pant Cae Haidd a diolchwyd i'r darlithydd gan Mrs. N. Miles. Mrs. Idris Humphreys, Arwel a roddodd y raffl a Mrs. Williams o Frynsiencyn a'i henillodd. Mrs. N. Roberts, Elwy House, Miss M. Roberts, Ardd Isaf, Mrs. Blodwen Pierce, Tref Eilian a Mrs. K. Williams, Is-Eilian oedd yn gyfrifol am y te.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** — Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Iau, Tachwedd 6, a dewiswyd y swyddogion a ganlyn: Llywydd: Mrs. K. Wyn Jones; Is-lywydd: Mrs. O.T. Jones; Ysgrifennydd: Mrs. Helen Blackstone; Ysgrifennydd Cynorthwyol: Mrs. Betty Griffith; Trysorydd: Mrs. Buddug Rowlands; Trysorydd Cynorthwyol: Mrs. T.A. Thomas; Gohebydd: Mrs. Hefin Jones: Ysgrifenyddion Tripiau: Mrs. H.M. Evans a Mrs. Doris Roberts; Ysgrifennydd Croeso: Mrs. W. Missen; Dosbarthwr 'Home and Country': Mrs. Beryl Roberts.

Cynrychiolid y Pwyllgor Sir gan ei ysgrifenyddes, Miss Ellen Owen, Bontnewydd a diolchodd Mrs. K. Wyn Jones iddi hi ac i'r rhai oedd yn gyfrifol am y lluniaeth.

Enillwyd y gystadleuaeth am wneud 'Tegan Meddal' gan Mrs. H.M. Evans a Mrs. Hefin Jones. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs. Southworth gan Mrs. Idris Jones.

**MERCHED Y WAWR** — 'Noson gyda'r Gwrachod' fu nos Iau, Hydref 27. Cafwyd noson hwyliog o dan ofal y pwyllgor ac ar y diwedd cafwyd cawl wedi ei baratoi gan Mrs. Luned Roberts a Mrs. Beryl Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs. A. Lloyd Hughes, Gwastadfaes.

Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Hugh Owen gan Mrs. Menna Williams, Pennant.

**YR EISTEDDFOD ARDAL** — Cafwyd eisteddfod neilltuol o lwyddiannus eleni eto, a nifer fawr o blant, pobl ifanc a rhai mewn oed yn tynnu torch yn y gwahanol gystadlaethau. Mrs. Megan Roberts, Llanrug a Mr. W. Glyn Owen, Pwllheli oedd yn beirniadu'r canu a'r adrodd.

Y cyfeilyddion oedd Mr. Hywel Owen, Mrs. A.W. Marston a Mr. E. Wyn Jones. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs. Gwyneth S. Wheldon, Bethel a chyfarfod y nos gan Mrs. Eryl W. Francis, Caerdydd.

Yr arweinyddion oedd: Mrs. Gillian Wyn a Mr. Leslie Jones (prynhawn) a Mr. Geraint Davies a Mr. Donald Roberts (nos).

Y mae'r pwyllgor yn diolch i bawb am eu llafur a'u cefnogaeth. A phawb yn diolch i'r pwyllgor: Llywydd: Mr. T.H. Williams, Coed Gwydryn; Ysgrifennydd: Mrs. Marion Iwan, Penyberth; Trysorydd: Mrs. Betty Griffith, Gorffwysfa — am eu llafur hwythau a'u hymroddiad.

**CLWB Y MAMAU** — Cynhaliwyd "Gyrfa Chwilod" (Beetle Drive) nos Iau, Tachwedd 10. Aeth y wobr gyntaf i Mrs. Glenys Williams, y "booby" i Mrs. Brenda Jones a'r raffl i Mrs. Bethan Williams. 'Roedd y cyfarfod o dan ofal Mrs. Margaret Eaglestone.

Tachwedd 19 aeth llawer o'r aelodau a'u ffrindiau ar wibdaith i Lerpwl ac aros yn y "Singing Kettle" am swper ar y ffordd adra. Rhaid diolch i dadau'r ardal am warchod y plant gan obeithio nad oedd y diwrnod yn rhy hir iddynt.

Cafwyd Pwyllgor Argyfwng ddydd Sul a phenderfynwyd prynu cloc larwm i un o'r merched gan nad gwaith y gyrrwr bws yw deffro'r teithwyr dro ar ôl tro fel hyn!

Bydd Swper Nadolig a Disco i'r aelodau yn Snowdonia Park Hotel ar Ragfyr 15.

Mae'r clwb am roi parti i blant yr ardal yn y prynhawn ar Ionawr 7 a Disco i'r bobol ieuanc gyda'r nos. Fe geir y manylion yn nes ymlaen.

**LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU GORAU** — i Mr. a Mrs. Stanley Anderson, Bod Arfon (Miss Evelyn Evans gynt) ar eu priodas. Dymuniadau gorau i Miss Delyth Williams, Coed Gwydryn sydd wedi mynd i nyrsio i Birkenhead; llongyfarchiadau i Dafydd Morris, Fron Goediog ar ennill ar Arlunio yng nghystadleuaeth y 'Caernarvon and Denbigh Herald'.

**BEDYDD** — Ar Hydref 30 yn Eglwys Sant Ioan, bedyddiodd y Canon Glyndwr Williams, Martin Charles, mab Mr. a Mrs. David Beech, Rosemount.

**Y BLAID** — Ym mhwyllgor y Blaid ar Dachwedd 11 trefnwyd y Ffair Nadolig a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 ar Ragfyr 2. Fe fydd yno stondinau, chwaraeon a Siôn Corn. Croeso i bawb.

**CYDYMDEIMLWN** — â Mrs. John Roberts, 2 Dolerddi yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr.

**YN YR YSBYTY** — Dymunwn adferiad buan i Mrs. M. Griffith, Bronallt a Mr. Robert Jones, Tanyfron.

**O'R YSBYTY** — Dymunwn wellhad buan, hefyd, i Mrs. Catherine Jones, Crud yr Awel; Mrs. A. Taylor, Dolerddi; Mr. Gary Davies, Hafan; Mr. Francis Williams, Bryn Golau a Mr. T.H. Williams, Coed Gwydryn.

**YR AELWYD A'R URDD** — Aeth rhai o aelodau'r Aelwyd i Blaencwm, Croesor nos Wener (Tachwedd 18) a buont yno tan y Sul.

Colli eu gêm bêl-droed i blant o dan 12 oed a wnaeth tîm yr Urdd yn erbyn Caernarfon. Er iddynt sgorio 5 gôl fe sgoriodd Caernarfon 8. Gwledd i'r gwylwyr heb os!

**CASGLWYD £21** — tuag at yr N.S.P.C.C. a chafwyd £43 wrth werthu Pabi Coch yn ystod y mis.

**PLYGU'R ECO** — Oherwydd fod Dafydd Glyn Williams wedi mynd i ffwrdd i weithio mae angen rhai o'r Waun i fynd i Nant Peris ar nos Iau unwaith yn y mis i gynorthwyo efo plygu'r Eco. Golyga hyn rhyw awr i awr a hanner o waith mewn mis. Ar hyn o bryd mae rhai o'r ardaloedd eraill yn gorfod gwneud mwy na'u siâr o'r gwaith. Os medrwch helpu a fyddwch cystal â chysylltu â Mr. Norman Williams, Llidiart Gwyn. Diolch yn fawr.

# DEINIOLEN

**Y SEINDORF** – Prysur iawn fu hanes y Seindorf yn ystod y mis a basiwyd, gyda chyngerdd ym Mangor un nos Wener pan oeddynt yn difyrru yr henoed ym Mhlas y Coed, yna cyngerdd arall ym Methesda nos Fercher Tachwedd 9ed yng nghwmni Parti Cynfi a chafwyd noson canmoladwy iawn.

Ar ddiwrnod cadoediad rhoddodd y Seindorf eu gwasanaeth ym Mangor yn y bore ac yn y pentref y prynhawn.

Mr. Irfon Morris fydd o hyn ymlaen yn cymryd gofal o'r Seindorf iau, pob lwc iddo ar ymgymeryd â'r gwaith.

Llongyfarchion i'r Seindorf ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth yn Connahs Quay ddydd Sadwrn, Tachwedd 19eg. 'Roedd chwech band yn cystadlu a'r canlyniadau oedd: Rhyl yn gyntaf gyda 79 pwynt yna Bwcle 77 a Deiniolen 76. Yn ystod gweithgareddau'r diwrnod fe anrhydeddwyd Mr. J.E. Morris a Mr. J.G. Jones, dau gyn-aelod a Mr. Tommy Williams aelod presennol o'r Seindorf â Thystysgrif a bathodyn gan glwb Bandiau Pres Prydain am roi dros hanner can mlynedd o wasanaeth ym myd y bandiau.

Cyflwynwyd y Tystysgrif gan Mrs. E. Bray, Huddersfield.

Bydd Swper Blynyddol y Seindorf yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis noson cyn y flwyddyn newydd.

**PLAID CYMRU** – Nos Wener, Tachwedd 4ydd cynhaliwyd "Ffair Gaeaf" yn ysgol Gwaen Gynfi, bu y noson yn llwyddiannus iawn. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r cyfeillion am anfon rhoddion mewn arian a nwyddau i'r byrddau gwerthu.

Bydd y cinio Nadolig ar Ragfyr 10ed yng Ngwesty Dolbadarn Llanberis. Dylai unrhyw un sydd yn dymuno rhoi eu henwau i Miss Jean Parc Jones, Blaencae, neu Miss Mair Rees Jones, Tan y Caerau, erbyn dydd Mercher Rhagfyr 7ed. Pris y cinio yn cynnwys bws a raffl £4. Bydd y trefnwyr yn casglu yr arian yn ystod wythnos gyntaf yn Rhagfyr.

Cychwynnir o Ddinorwig am 7.15 o'r gloch, ac yng Nghlwt-y-bont am 7.30 o'r gloch.

**CLWB IEUENCTID** – Y mae tîm dartiau wedi ei sefydlu yn y clwb yn awr. Hyd yn hyn y maent wedi bod yn dra llwyddiannus. Wedi chwarae tair gêm a churo dwy ac yn gyfartal mewn un. Aelodau'r tîm yw: Keith Bingham, David J. Evans, Roy Davies, Alan W. Williams, Malcolm Davies, Meirion Jones, David O. Evans, Dilwyn Jones a Stephen Evans.

O'r diwedd yr ydym wedi cael hyfforddwr Ymarfer Corff i'r clwb. Mr. John Ian Jones o Rhos Isa ac athro yn Ysgol Syr Hugh Owen. Dechreuodd ei waith ar nos Lun, Tachwedd y 7ed, ac yr oedd wedi ei blesio â safon y gymnasteg yn enwedig y genethod. (Beth amdani fechgyn?)

**CYDNABOD** – Dymuna Mrs. Mattie Williams, 46 Pentre Helen gydnabod gyda diolch y rhoddion ariannol dderbyniodd mewn ateb i'r apêl a drefnwyd ar ei rhan gan Gyngor Eglwysi Deiniolen. Bydd Mrs. Williams a'i meibion yn dychwelyd i'w cartref cyn ddiwedd y flwyddyn pan fydd y tŷ wedi ei drwsio wedi'r difrod achoswyd yno gan dân.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Lun, Tachwedd 7ed dan lywyddiaeth Mrs. M.A. Thomas, cafwyd noson ddiddorol gyda Mrs. Cemlyn Williams, Caernarfon pan ddangosodd sut i wneud addurniadau Nadolig gyda blodau. Cafwyd diolchiadau gan Miss Eleanor Jones, ac fe drefnwyd paned o de gan Mrs. Eileen Williams a Mrs. Katie Jones.

Enillydd y raffl oedd Mrs. Margaret Roberts.

Cynhelir y Cinio Nadolig yng Ngwesty y Marine, Caernarfon ar 16eg Rhagfyr.

Bydd Pwyllgor Blynyddol o'r Sefydliad, nos Lun, 5 Rhagfyr.

**PWYLLGOR CHWIORYDD (Eglwys Disgwylfa)** – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ddydd Iau 3ydd Tachwedd pryd y cymerwyd y rhan defosiynnol gan Mrs. Rees Owen. Prif bwrpas y cyfarfod oedd trafod y gwaith ardderchog sydd wedi ei gyflawni gan aelodau a ffrindiau yn yr Eglwys i godi arian i gronfa'r organ. Gwnaethpwyd elw o £121 trwy gynnal Noson Goffi ac mae'r chwiorydd wedi penderfynu gorffen y swm yn £200 i'w drosglwyddo i'r gronfa.

Trefnwyr y te oedd Miss Ann Jones, 1 Tai Gweledfa a Mrs. M. Hughes, 7 Tai Caradog, a chafwyd y diolchiadau gan Mrs. Richard Williams.

Mae Cronfa'r organ yn dal yn agored ac fe dderbynnir unrhyw rodd yn ddiolchgar gan Mr. Brython Jones (Trysorydd) neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

**CYFARFOD CYHOEDDUS** – Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 14 pryd y siaredir gan Mr. Idwal Edwards, cyn-ysgrifennydd rhanbarthol yr Undeb, TGWU ar "Silicosis".

**APÊL GWAUN GYNFI** – Ymgyrch yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhelir Noson Chwist dan nawdd yr uchod yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Wener, 16 Rhagfyr am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

**BROWNIES** – Mewn cyfarfod nos Fercher, cofrestrwyd naw o enethod yn gyflawn aelodau sef Jennifer Jones; Della Jones; Yvonne Jones; Carys Williams; Dilys Williams; Einir Lewis; Yvonne D. Jones; Mandy Roberts; Gwenda Evans.

Cymerodd y genethod ran yng ngorymdaith Sul y Cadoediad i wasanaeth arbennig yn Eglwys Llandinorwig.

**YN Y RHIFYN NESA'**

**CYFARCHION NADOLIG GAN FASNACHWYR LLANBERIS, DEINIOLEN PENISARWAUN A'R WAUNFAWR**

**Cefnogwch ein hysbyswyr. Hebddynt byddai pris eich Eco'r Wyddfa dair ceiniog yn ddrutach!**

**PRYNWCH 'BRO'**

**Cylchgrawn newydd Rhif 3 allan nawr**

* **T. Llew Jones** yn sôn am un o Fois y Cilie y mae ei waith wedi ei gerfio yn Senedd-dy Canada.
* **Waldo Williams** yn adrodd yr hanes tu ôl i'r gerdd "Cofio" a ffeithiau diddorol eraill am ei fywyd a'i waith.
* **Eirwyn Pontsiân** yn cofio **Jacob Dafis.**
* **Idwal Jones** – Y Gymanfa Bwnc
* **Myrddin Fardd** – hanes y gof rhyfedd o Chwilog
* **Ernest Roberts** yn sôn am iaith y chwarelwyr
* **Eleri Morris** – stori newydd
* **Hanes Bethesda** – ddoe a heddiw
* Hanes **Harris Cwrt y Cadno**

**Danfonwch siec/archeb bost am £3.50 er mwyn derbyn y 6 rhifyn nesaf drwy'r post i: Y Cyhoeddwr Brynglas, Llanfihangel-ar-Arth, Pencader, Dyfed.**

# PENISARWAUN

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Hydref 25.

Llywyddwyd gan Mrs. E. Jones, Cae Corniog. Estynnwyd croeso i Mrs. Cemlyn Williams o Gaernarfon a chafwyd noson ddifyr a diddorol yn gwylio Mrs. Williams yn gwneud addurniadau ar gyfer y Nadolig gan ddefnyddio blodau wedi eu sychu a'u peintio yn hynod ddeniadol. Diolchwyd i Mrs. Williams gan y Llywydd ac hefyd i roddwyr y te sef Mrs. Margaret Williams, Mrs. Ann Jones a Mrs. Glenys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs. Eirlys Jones.

Nos Wener, Tachwedd 11 aeth llond bws o'r aelodau a ffrindiau i Landudno i weld Carousel yn Theatr Astra. Cafwyd noson ddifyr iawn er gwaetha'r tywydd mawr.

**MARWOLAETHAU** – Bu Tachwedd yn fis creulon yma; collasom dri o'n pobl. Bu farw Mr. Owen R. Jones, 9 Bryn Tirion, Mr. Ifor G. Jones, Plas Dulas a Mrs. A.E. Maddock, Wooden Cottage. Mae cydymdeimlad y pentref yn mynd at y teuluoedd yn eu gofid.

**YN GWELLA** – Da clywed bod Mr. R. Pritchard, Gwynfa, Brynhyfryd yn gwella. Dymuna'r pentref wellhad llwyr a buan iddo.

**EISTEDDFOD LLANRHAEADR YM MOCHNANT** – Llongyfarchiadau i Mr. Tony Elliott, Bryn Eglwys ar ennill ei chweched cadair. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddo gael cadair Llanrhaeadr ym Mochnant. Y Prifardd Emrys Roberts oedd y beirniad.

**DIOLCHIADAU** – Carai Miss Phyllis Ellis ddiolch i Ernest ac Aled Green am drefnu tîm diffodd tân ac i'r rhai ym mhob pentref ym mhlwyf Llanddeiniolen a gydsyniodd â'i chais am arweinwyr timau diffodd tân. Gwnaeth gais hefyd am lampau i Winllan, Craig Dinas, Bryn Arthur, Tŷ Newydd, Cae Hywel. Os nad yw'r polion presennol yn addas rhoddir ystyriaeth pellach i'r mater pan fydd y cyngor yn paratoi amcangyfrifon 1978.

**GWASANAETH NADOLIG (Eglwys St. Helen)** – Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar ddydd Sul Rhagfyr 18 am 6 o'r gloch yn yr hwyr. Mae un o aelodau'r Ysgol Sul, Sion Williams, Gors gynt, wedi symud i fyw i Landegfan. Da yw gweld ei fod yn dal i ymdrechu i ddod i'r Ysgol Sul.

**GYRFA CHWIST** – Bydd Gyrfa Chwist arbennig yn Neuadd yr Eglwys ar y 6ed o Ragfyr am 7.30 p.m. Dymuna'r rhai sy'n trefnu ddiolch i'r rhai sydd wedi helpu ar hyd y flwyddyn gyda'r bwyd a phob peth arall.

**YMDDIHEURIAD** – Mae'n ddrwg gennym am y camgymeriad yn enwau aelodau Pwyllgor Lleol yr Eisteddfod. Leslie Jones sy'n aelod o'r Pwyllgor ac nid Leslie Larsen.

**PWYLLGOR YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** – Cofiwch am y **Noson Lawen**, nos Wener, Rhagfyr 9ed, am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys. Bydd Parti'r Heulwen yn canu, ac mae Siôn Corn yn galw heibio. Dewch i fwynhau noson o hwyl ar drothwy'r 'Dolig, ac i gyfrannu tuag at Gronfa Eisteddfod Penisarwaun yr un pryd.

**Y Daith Gerdded.** Er gwaethaf y tywydd anffafriol daeth nifer annisgwyl ynghyd i gerdded. Diolch o galon iddynt am helpu i osod sylfaen ariannol arbennig o dda i'r Gronfa, a diolch yn fawr iawn i chwithau'r pentrefwyr am eu noddi.

**UNDEB Y MAMAU** – Fe gafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau ar nos Lun y 7ed o Dachwedd. 'Roedd y gwasanaeth dan ofal y ficer. 'Roedd yn noson ystormus ac felly nid oedd llawer wedi dyfod. Ond er gwaethaf y tywydd fe gawsom hanes difyr gan Miss Phyllis Ellis a ffilmiau am ei gwyliau yn yr Eidal. Diolchwyd iddi gan Mrs. Mowll.

Dymunwyd gwellhad i'r rhai hyn: Mrs. Roberts, Ship Cottage; Mrs. Naylor; Mrs. G. Jones; Mr. O.C. Roberts; Mr. R. Pritchard a Mr. Alf Pritchard.

Rhoddwyd y te gan Mrs. G. Edwards y Ficerdy, a diolchodd Mrs. G. Lewis iddi.

**APÊL EGLWYS ST. HELEN** – Oherwydd cyflwr drwg y system drydanol yn yr eglwys rhaid mynd ati yn fuan i atgyweirio ac adnewyddu'r gwifrau trydan. Golyga hyn gost o rai cannoedd o bunnau. Mae nifer o weithgareddau i godi arian wedi eu trefnu er enghraifft arwerthiant gwaith ar nos Wener, Rhagfyr 2ail am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys. Ond os hoffai rhywun gyfrannu'n ariannol at y gost o adnewyddu'r system drydan yna fe dderbynnir eich rhoddion gan y Ficer – y Parch. Geraint W. Edwards, Y Ficerdy.

**Daw RHIFYN Y NADOLIG allan cyn y NADOLIG**

**Y deunydd i law'r Golygydd erbyn RHAGFYR 7ed**

CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

**ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

RHIENI MAETH

A fedrwch chwi ofalu am blentyn rhywun arall? Os ydych yn meddwl y medrwch, hoffem sôn wrthych am blant y gwyddom amdanynt sydd angen gofal arbennig iawn gan na all eu rhieni eu hunain ofalu amdanynt.

Mae ar y plant yma angen eich math chwi o ofal – yn eich math chwi o gartref – da chwi, meddyliwch am y peth – os gwelwch yn dda! – a dewch i gysylltiad â:

Mrs. B. Gwilt,
Adran Gwasanaethau Gymdeithasol,
Maesincla, Caernarfon.
C'fon 4441 Ext. 49

# SIBRYDION o'r YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

### COLEG ARLUNIO CAER

**Dydd Iau, Tachwedd 10ed, aeth pedwar disgybl o'r chweched dosbarth gyda Mr. E. Roberts, athro arlunio, i ymweld â choleg arlunio Caer. Caniatawyd i'r disgyblion gael golwg ar wahanol adrannau arlunio yn y coleg; adrannau fel crochenwaith, brasluniau, peintio a lluniau 3 dimensiwn. Trwy hyn cafodd y disgyblion syniad o'r math o waith sy'n cael ei wneud yn y coleg, a'r gwahaniaeth sydd rhyngddo a gwaith ysgol. Treuliasant eu hamser gyda Mr. Lumsden, a fu mor garedig â dangos proses cyfan o wneud 'etching'. Rhoddodd gyfle ar adegau i'r disgyblion i wneud rhywfaint o'r gwaith eu hunain. Mwynhaodd y pedwar disgybl y diwrnod yn fawr iawn, ac yr oeddynt yn ddiolchgar iawn i Mr. Shore, Prifathro'r Coleg, am eu gwahodd yno.**

### ENILLWYR ARLUNIO YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Mae nifer helaeth o'r ysgol wedi ennill gwobr eleni eto yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd lluniau y canlynol i'w gweld yn yr arddangosfa ar faes yr Eisteddfod yng Nghaerdydd mis Awst nesaf: Gwyneth Green; Delyth Gwawr Williams; Ian Wyn Williams; Glyn Jones; Julie Leatherbarrow (2 lun) Jessica Williams; Gwilym Roberts; Wendy Jones; Jamie Cunliffe; Arfon Jones; Susan Jones; Ian Pritchard; Rhian Wiliams (2 lun); Michael John Williams..

### YR YSGOL AR Y TELEDU

**Prynhawn Mercher, Hydref 27, bu disgyblion a staff yr ysgol yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen, yn recordio ar gyfer y rhaglen deledu "Dechrau Canu, Dechrau Canmol". Arweiniwyd gan yr athro cerdd, Mr. Gwyndaf Parry, a bu ef hefyd yn gyfrifol am ddysgu côr y plant iau a chôr y staff a'r plant hŷn. Arweiniwyd y parti penillion gan y cyn-archdderwydd Mr. Gwyndaf Evans, a bu Mrs. Megan Roberts, Llanrug, yn ogystal â dwy ddisgybl o'r ysgol, Iola Griffith ac Annette Roberts yn chwarae'r delyn. Cyfeiliwyd gan Miss Marsha Thomas, Llanberis. Ni wyddys eto pryd yr ymddengys y rhaglen ar y teledu.**

### THEATR GWYNEDD

Ar Dachwedd 7ed ymwelodd disgyblion y 5ed dosbarth a'r rhai sy'n astudio Cymraeg yn y 6ed dosbarth â'r theatr i weld y perfformiad o "Siwan", gan Saunders Lewis. Hefyd yn ystod y mis bu nifer o blant yr ysgol yn y theatr yn gweld y perfformiad o "Death of a Salesman," gwaith Arthur Miller.

### MYNYDDA

Ddydd Sadwrn, 19eg o Dachwedd aeth 4 aelod o'r staff a pharti o blant i gerdded dros Glyder Fach. Yr arweinydd oedd Dr. Prys Morgan Jones ac er fod y tywydd yn sobr 'roedd bob un wedi mwynhau y daith.

### GÊM NEWYDD

**Bu'r pedwar postyn gwyn a godwyd yn ddiweddar ar gae chwarae Ysgol Brynrefail yn gyfrwng i beth dyfalu a chrafu pen gan rai o'r ardalwyr. Clywais am rai'n datgan barn mai gwifrau teliffon fyddai ynghlwm wrthynt, eraill mai esgyrnwaith math newydd o adeilad oeddynt, ac un yn wir yn mentro fod yr ysgol am agor gorsaf radio.**

**Eglurwyd eu pwrpas yr wythnos ddiwethaf pan gysylltwyd trawsbyst rhyngddynt, a'u hamlygu fel pyst Rygbi – y rhai cyntaf, cyn belled ag y gwn i, i'w gweld yn ardal *Eco'r Wyddfa*.**

Yng nghadernid Gwynedd, pwy fyddai'n tybio ychydig flynyddoedd yn ôl y byddai gêm y Sowth a'r Ysgolion Bonedd yn tresmasu ar diriogaeth y Bêl-droed draddodiadol, ond dyna fu'n digwydd, bron na ellid dweud, yn llechwrus. Un ysgol yn dilyn y llall – tref yn dilyn dinas, a'r sefyllfa'n codi mai Ysgol Brynrefail oedd un o'r ychydig rai yng Nghymru nad oedd â chyfleusterau ar gyfer y gêm.

Aeth dau o'r athrawon, Iwan Williams a Howyn Jones ati i ymddiddori rhai o'r plant yn y gêm a chafwyd ymateb calonogol, yn enwedig gan rai nad oes diddordeb ganddynt mewn chwarae pêl-droed. Mae lle yn y gêm yma i'r rhai sydd efallai'n rhy drwm neu araf i fod yn Yorath neu Doshack, ond pwy yn ardal *Eco'r Wyddfa* bellach sydd heb edmygu Quinnell, JPR neu JJ?

Mae'r gem yn adnabyddus, hyd yn oed os nad yw'r rheolau a'r tactegau yn hollol ddealladwy.

Mae'r crysau arbennig, a'r peli hirgwn eisoes wedi eu prynu, a gobeithir cynnal ras sbonsor o gwmpas y cae chwarae i dalu amdanynt; mae angen dros £100 i glirio'r ddyled.

A'r ymarfer eisoes wedi dechrau, gobeithiaf gyflwyno adroddiad am gêm Rygbi gynta'r ysgol yn *Eco'r Wyddfa* cyn diwedd y tymor.

### YR YSGOL GYNRADD PENISARWAUN

Cynhaliwyd Noson Goffi ynghyd â stondinau yn yr ysgol yn ddiweddar. Gwnaed elw o £185 tuag at Gronfa'r Ysgol. Dymuna'r prifathro ddiolch yn gynnes i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Dymunir adferiad buan i un o'r athrawon, sef Mrs. Iola Grisdale. Mae Mrs. Helen Parry o Geunant, Llanrug wedi bod yn llenwi'r bwlch ers mis bellach.



*Aelod o Fand Deiniolen yn cael tystysgrif hanner can mlynedd o wasanaeth i Fandiau Pres.*
O'r chwith i'r dde: *Tom Williams sydd yn chwarae Cornet yn y Band presennol a hefyd yn un o Drympedwyr yr Eisteddfod o dan yr enw Tom Deiniol. J.G. Jones a roddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r Band; Mrs. Bray o Halifax ysgrifenyddes yr N.B.B.C. a wnaeth y cyflwyno. J.E. Morris sydd yn dal ei gysylltiad â'r Band fel Arweinydd.*

## DARGANFYDDIAD HANESYDDOL?

Efallai fod y deifwyr sy'n gysylltiedig â Gwaith Trydan Dinorwig wedi gwneud darganfyddiad hanesyddol wrth chwilota gwely Llyn Padarn yn ddiweddar. Daethant o hyd i weddillion cwch a gariai lechi rywle yn y dyfnder.

Gan nad oes archwiliad manwl wedi ei wneud eto o'r gweddillion gan arbenigwyr ni allwn yn yr Eco ond datgan fod posibilrwydd i'r cwch yma fod tua dau gant o flynyddoedd oed. Nid yw'r deifwyr yn rhyw awyddus iawn, am amryw o resymau, i roddi cyhoeddusrwydd mawr i'r darganfyddiad eto; felly gwerthfawrogwn eu pryder yn hyn o beth trwy beidio â chyhoeddi union fan y darganfyddiad. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn dilyn y datblygiadau.

## GWAITH CYNGOR

**Derbyniodd y Cynghorydd Pat Larsen atebion ysgrifenedig oddi wrth Adran Briffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd ynglŷn â'r materion canlynol:**

**LÔN HAEARN, CLWT-Y-BONT, DEINIOLEN** – Bydd y lôn hon yn cael sylw dan Gynllun Creu Gwaith Gwynedd.

**GOLAU CYHOEDDUS** – Bydd Penisarwaun yn cael y golau oren newydd y flwyddyn ariannol nesaf.

**LLWYBRAU BRYNREFAIL** – Cant sylw dan Gynllun Creu Gwaith Gwynedd ac eithrio llwybrau 55 a 56 lle mae rhwystrau ger y bwthyn Bryn Madog. Mae'r Cyngor wedi cysylltu â'r perchennog a'r tirfeddiannwr i symud y rhwystrau.

Mae copïau o'r llyfryn
Daucanmlwyddiant
Eglwys M.C.,
Capel Coch
Llanberis

ar gael
gan

Mr. J. Butler
Snowdon View
Llanberis,

Pris y llyfryn: £1.30
cludiant 15c

CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL
CLWYD
VOLUNTARY SERVICES COUNCIL

## ADRAN DRAMÂU

**Anfonwch 'rwan am ein rhestr o ddramâu – Dros 80 o ddramâu un act a 35 o ddramâu hir.**

**Newydd o'r wasg:**
**Cwymp Lladron – J. Selwyn Lloyd**
**Mamon fy Nuw – J. Selwyn Lloyd**
**Pen Blwydd Hapus – J. Selwyn Lloyd**
**Llwch i'r Llwch – Edgar Jones**

### DRAMÂU UN ACT NEWYDD SBON!

**Am swm isel, medrwch fenthyg y dramâu mewn stoc neu eu prynu. Croeso cynnes i chwi ymweld â'r Swyddfa er mwyn dewis eich drama.**

Charles A. Hogg, Prif Swyddog – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd
Ffordd yr Orsaf, Rhuthun, Clwyd, Ffôn: Rhuthun 2441.

# BETHEL

**CLWB YR HENOED –** Oherwydd y storm, ychydig a ddaeth i'r Neuadd i drafod y posibilrwydd o sefydlu clwb i'r henoed yn y pentref. Penderfynodd y rhai a ddaeth i'r Neuadd gynnal cyfarfod arall ddechrau'r flwyddyn pryd y trefnir i Mr. Albert Jones o'r Cyngor Gwlad fod yn bresennol i arwain y drafodaeth.

**EISTEDDFOD CAERNARFON 1979**
Mae'r ymgyrch leol bellach wedi codi stêm a'r gronfa yn dechrau chwyddo. Eisoes fe gynhaliwyd Noson Goffi a Disgo ac mae'r gronfa 'nawr wedi cyrraedd £40. Mae nifer o'r ardal hefyd wedi rhoi benthyg arian i Fanc y Beirdd. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r gronfa neu i roi benthyciad i Fanc y Beirdd gofynnir iddynt gysylltu â'r trysorydd, Mr. Seiriol Owen, Tan y Cae (Ffôn 670569) neu unrhyw un o'r Pwyllgor.

**CYMDEITHAS LENYDDOL BETHEL**
Cafwyd noson ddifyr iawn o Godi Cwestiwn yn y Gymdeithas Lenyddol gyda Mrs Eluned Ellis Jones, Mr. G. Richard Jones, Mrs. Ellis, Tŷ Cerrig, Y Parch. W.R.Williams a'r Parch. George Brewer ar y Panel.

Yn ystod mis Rhagfyr bydd dau gyfarfod o'r Gymdeithas: Nos Iau, Rhagfyr 8fed bydd noson yng ngofal Mr. Rol Williams, Y Waunfawr yn Festri'r Cysegr, a Nos Iau, Rhagfyr 22 bydd noson o garolau yng Nghapel Bethel.

**CROESO –** Mae pedwar teulu newydd wedi symud i fyw i stad Tan y Cae yn ddiweddar. Dymunir yn dda iddynt i gyd a gobeithio y byddant yn hapus ym Methel.

**LLONGYFARCHIADAU –** Llongyfarchiadau i Mrs. Sally Hughes, Ysgoldy ar ei phen-blwydd ddydd Gwener, Tachwedd 25ain a Miss Katie Morris, Penrhos a fu'n dathlu ei phen-blwydd ddechrau'r mis gyda chinio mewn gwesty yng Nghricieth.

**CLWB Y RHOS –** Nos Lun, Rhagfyr 12 bydd aelodau Clwb y Rhos a'u gwragedd yn mynd i Ganolfan Crefftau Bodeilio ac yna yn galw yng Ngwesty Tŷ Mawr am bryd mewn basged. Bydd y bws yn cychwyn o'r Ysgol am 7p.m.

**DYMUNO'N DDA –** Bellach mae trefnydd gwerthiant yr 'Eco' ym Methel, sef Mr. Emyr Wyn Jones, wedi symud i'r Felinheli. Diolch o galon i Emyr am yr holl waith a wnaeth dros yr 'Eco' ym Methel. Mae ein dymuniadau gorau i Emyr, Jean a Lliwen yn eu cartref newydd.

Mae Mr. John Owen, Tan y Cae wedi cymryd gwaith Emyr drosodd. 'Rydym yn diolch yn fawr i Mr. Owen am ei barodrwydd i helpu gyda'r 'Eco'.

**CYDYMDEIMLO –** Ddechrau'r mis bu farw Mrs. Eunice Williams, 25 Bro Rhos. Mae ein cydymdeimlad llwyraf â Mr. Williams a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Bu Mrs. Williams yn weithgar iawn yn y pentref. Y llynedd 'roedd yn Is-lywydd Merched y Wawr ond oherwydd ei gwaeledd ni ymgymerodd â'r Llywyddiaeth eleni. Bydd colled fawr ar ei hôl yn y pentref

**EISTEDDFOD BETHEL –** Bardd cadeiriol Eisteddfod Bethel eleni oedd Mr. Evie Wyn Jones, Llandwrog. Enillodd y gadair am ei gerdd ar y testun 'Craith'. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eto a diolchwn i bawb a fu'n gweithio dros yr Eisteddfod eleni eto.

**MERCHED Y WAWR –** Nos Fercher, 9fed o Dachwedd cyfarfu'r gangen dan lywyddiaeth Mrs. Shirley Evans. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar ofal yr henoed. Rhoddodd Mrs. Evans, Tan y bryn adroddiad llawn iawn o'r Gynhadledd yn Aberystwyth a diolchwyd iddi gan Mrs. S. Hughes, Ysgoldy. Gwnaed y te gan Mrs. Catherine Jones, Y Ddolwen a Mrs. Mair Jones, Glan Gors. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Ellen Ellis ac fe'i henillwyd gan Mrs. Mabel Jones.

Y mis nesaf croesawn gangen y Waunfawr atom i gael noson ar lafar ac ar gân. Mae rhai aelodau o'r gangen yn brysur yn ymarfer parti canu ar gyfer y noson.

Gobeithir trefnu raffl yn ystod y mis gyda'r elw yn mynd at Ysgol Pendalar, Caernarfon. Erfynnir yn daer ar yr holl aelodau i wneud ymdrech i werthu'r holl docynnau.

## 'CYMDOGES REIT AGOS I'W LLE

'Mi glywaf dyner lais
Yn galw arnaf fi...'

PAN glywais yr emyn uchod yn cael ei chanu yng nghapel Cysegr yn ystod y gwasanaeth i ddiolch am fywyd Mrs. Eunice Williams, 25 Bro Rhos, fe syrthiodd darn mawr i'w le yn fy mhortread ohoni. Cyn clywed cyfieithiad Ieuan Gwyllt o emyn L. Hartsough pnawn Sadwrn tân gwyllt ni allwn yn fy myw a rhoi fy mys ar sbardun ei hagwedd tuag at fywyd. 'Roedd y llais o ba le bynnag yr oedd yn dod-o'i magwraeth, o'i hatgofion neu ei chrefydd-yn ei hannog drwy ei chydwybod i wneud ei gora' glas i'w theulu, i'w chymdogion ac i'w chymdeithas. Gan mai'r llais oedd yn ei chyfeirio cadwodd yng nghyffiniau yr hyn sy'n nodweddu proffeswyr y clustfeinio. Gan iddi wneud hynny bydd llawer yn teimlo o'i cholli, 'Bro Rhos sy'n wacach, y Bethelolion a ŵyr'.

Dyledwr

*Haulfryn*
*Brynrefail.*

*Annwyl Syr,*
*Tîm Pel-droed Glasgoed 1909-10*

*Hogia'r Cwm yw'r mwyafrif sydd yn y tîm beth bynnag am yr enw arnynt. Rhes uchaf o'r chwith i'r dde:*
*Morris Glanbogelyn, Hughie Parry, Station House, Wm. James Green, D. Simon Jones, Glanbogelyn, W. John Parry (tybed?).*
*Yr ail res: Nid wyf yn saff o'r 3 cyntaf. Harri a Daniel Evans (dau frawd), Tan Rhiw. Ar y blaen ar y chwith Robert Jones, Groeslon.*


*Ymfudodd D. Simon Jones, Harry a Daniel Evans i Los Angeles, Califfornia, ac addawodd Harri yrru cerdyn o Los Angeles. Daeth un â pheli eira yn un pen ac orennau y pen arall ac arno: "You throw snowballs to us and we will throw oranges to you" wedi ei brintio â llun yr orennau fel y maent. Felly gwyddai pobl Los Angeles yn yr amser pell hwnnw fod gan yr Wyddfa fawr gap gwyn.*

*Daeth y rhyfel byd cyntaf a daethant hwythau yn ôl i wasanaethu eu gwlad.*

*Yr eiddoch,*
*L.E. Foulkes (Mrs.)*

# MARCONI

*Darlun o'r rhai oedd yn gweithio yng ngorsaf Marconi yn 1932.*



*Dyma ddywed Mrs. K. Hughes, Bryn Meredydd, Waunfawr:*

"Dyma ddarlun o ddynion 'Marconi' yn 1932. Yr oedd 30 yn gweithio yno. Yn eistedd yn bumed o'r chwith y mae'r Prif Beiriannydd, Mr. Barrington, ac yn bedwerydd ei ddirprwy, Mr. Woods. Ar y dde yn y rhes flaen y mae pedwar o beirianwyr. Yr agosaf at Mr. Woods yw Will Thomas o'r Waun. Y mae 5 o 'Oerators' yn y darlun: Ted Owen (o'r Waun); Mr. Brown (o Gaernarfon); y cyntaf a'r ail o'r chwith yn eistedd; Mr. Smith (o Gaernarfon); fy ngŵr, Tom Hughes, y trydydd o'r chwith yn yr ail res a Hughie Jones (o'r Waun) efo'i getyn. Eraill o'r Waun yn y llun yw William Humphreys, fforman y gweithwyr allan, (pedwerydd o'r chwith yn yr ail res); Eddie Roberts (yn ei ymyl; Mr. Sparrow, (yn ei ymyl yntau); Tom Trevor (wrth ymyl Hughie Jones) a John Owen (y trydydd o'r dde yn y rhes gefn). Y ddau ar y chwith yn y rhes gefn yw Robert Williams (Caeathro, 'storekeeper') a Robert Parry, Ceunant. Un o Gaeathro yw'r pumed hefyd: Morris Williams. Ac y mae Will Jones, y gof o Gaeathro a John Humphreys, y 'watchman' am 30 mlynedd o'r Ceunant yn y llun. Hen longwyr o Gaernarfon wedi arfer dringo mastiau llongau oedd amryw o'r gweddill. Yr oedd dau o'r mastiau yn dri chan troedfedd a'r gwifrau fel gwe pry cop o un mast i'r llall. Pan oedd y 'Northern Lights' Marconi oedd yr unig orsaf ym Mhrydain oedd yn gweithio am eu bod yn defnyddio'r 'Morse Code'.

"Ar Chwefror 28, 1938 yr oedd yn storm fawr o wynt ac eira a chwympodd dau o'r mastiau mwyaf i lawr, a bu'r dynion i gyd yn chwilio am y gwifrau yn yr eira am wythnosau.

"Ni fu fawr o lewyrch ar yr Orsaf wedyn ac ym mis Mai 1939 daeth i ben ei thaith, er iddi fod yn storfa powdr gwn yn y tyllau mawr lle'r oedd y peiriannau amser yr Ail Ryfel Byd.

"Yn ystod y Rhyfel honno bu'n gartref ac ysgol i blant o Lerpwl; ar un cyfnod bu'n 'gartref gwyliau' i Fudiad Catholig; yn ddiweddarach bu'n ysgol breswyl am gyfnod; a bellach mae'n glwb."


THEATR GWYNEDD

PANTOMEIM
THEATR CYMRU

JAC
Y
JYNGL

20-22 Rhagfyr bob dydd 2.30 a 7.00
27 Rhagfyr 7.00 yn unig
28-30 Rhagfyr bob dydd 2.30 a 7.00
31 Rhagfyr 2.30 yn unig

Tocynnau: £1 75c i blant a phensiynwyr
Gostyngiad i bartion
BANGOR 51708

# CHWARAEON

## YR ECO MEWN RALI

MAE *Eco'r Wyddfa'n* mynd ar Rali Geir! Nid y Rali fawr, yr RAC Lombard mae'n wir – mae honno newydd orffen – ond rali fwyaf Gogledd Cymru er hynny. A sut mae papur bro yn mynd ar rali geir? Yn ysgrifenedig ar ochr un o'r ceir wrth gwrs.

Nid Castrol na Firestone fydd wedi eu llythrennu'n fras ar ochr un car o leiaf, ond *Eco'r Wyddfa – Papur Bro.*




### Y TÎM

Keith Roberts, 19 oed, Glanffynnon Llanrug fydd yn gyrru'r car, a John P. Williams, o Lanberis yn darllen y mapiau iddo. 'Does dim profiad o gystadlu mewn rali gan yr un o'r ddau, ond maent yn ffyddiog fod pob cymhwyster ar gyfer y gamp ganddynt. Mae Keith wedi ymddiddori mewn ceir a Rali er pan yn ddim o beth, ac wedi crwydro'r wlad ym mherfeddion y nos i weld ceir rali yn mynd heibio. Ei uchelgais fu cystadlu yn erbyn yr arwyr hynny fyddai'n gyrru mor ddi-ofn ar rai o ffyrdd gwaetha'r wlad. Yn y ddwy flynedd a basiodd er pan ddaeth o oed dreifio bu chwe car ganddo a phob un y mathau a ddefnyddir mewn rali. Dysgodd ei grefft ar lonydd cul y wlad, y grefft o yrru car yn ddiogel ar gwrs troellog mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosibl.

Gwaith John yw astudio'r mapiau, a gwneud yn hysbys i'r gyrrwr union gyflwr y ffordd sydd o'u blaenau – cynghori fod tro sydyn i'r dde mewn hanner canllath, fod yr allt nesaf yn serth neu fod angen troi i'r chwith yn y groesffordd – gwaith sy'n galw am fanylder a chywirdeb.

### Y CAR

Mewn Mini Cooper â pheiriant 1300 cc ynddo fydd yr hogiau'n cystadlu. Car 1964, ond gan fod cymaint o waith wedi ei wneud arno, a bron phob rhan wedi ei adnewyddu, nid yw oed y car yn bwysig o gwbl. Mae cawell o ddur y tu mewn, eu hyswiriant pe bai'r car yn troi drosodd – mae pob pibell a gwifren oddi tano wedi eu gorchuddio, ac mae panel y car yn atgoffa dyn yn fwy am Goncord nag am Fini. Mae goleuadau o bob math arno, y tu allan ac oddi mewn, ac mae'n glod i Keith mai ei waith llaw ei hun yw'r holl gampwaith. Mae'n gêm gostus, 'dydi set o blygiau yn para dim mwy na mis iddo, a gall teiar i un olwyn yn unig gostio cymaint â £26. Rhyw 15 m.i.g. a ddisgwylir ganddo ar y rali, ac mae'r hogia'n rhagweld y bydd o leiaf £30 yn mynd i'r tanc petrol yn ystod y noson.

*Mae car arall gan Keith, un gwell,* un cyflymach, sydd ond 3 mlwydd oed. Lotus Ford Escort Twin Cam. ydi hwnnw, a gall 'hedfan' ar 125 m.y.a. ar 10 m.i.g. Efallai y cawn sôn am hwnnw yn y dyfodol pan fydd Keith yn teimlo fod digon o brofiad ganddo i gystadlu ynddo. Ar hyn o bryd mae'r Mini yn hen ddigon o lond llaw.

### Y RALI

Mae'r newyddiadur 'Motoring News' wedi rhoi sêl eu bendith ar hen rali Clwb Moduro Môn ac Arfon, un na fyddai fel rheol ond gyrwyr lleol yn cystadlu ynddi, ac wedi ei mabwysiadu fel un o'u cystadlaethau blynyddol eu hunain. Fe'i gelwir y J.J. Brown Memorial Trophy, a 'does neb a ŵyr pwy fydd yn cystadlu. Mae posibilrwydd cryf y daw Keith wyneb yn wyneb â goreuon Prydain. 'Does ond 120 yn cael cystadlu, a phob un yn talu £12 am y fraint. *Bydd y ceir cyntaf yn* cychwyn o Wellfield, Bangor am 10.30 nos Sadwrn, Rhagfyr 10ed efo 210 o filltiroedd o'u blaenau. 'Does neb wrth gwrs yn gwybod y cwrs sydd i'w ddilyn, a 'does neb a ŵyr ym mhle bydd y rali'n gorffen rhyw 6 neu 7 awr yn ddiweddarach.

'Dydi Keith ddim yn gobeithio ennill, 'dydi o ddim hyd yn oed wedi breuddwydio y daw gwobr o gwbl iddo – ei nod, a'i benderfyniad ydi gorffen y rali. Y profiad sydd ei angen fwyaf ganddo, a'r wybodaeth y gall wneud cystal â goreuon y maes.

'Mae'n gobeithio y bydd yn noson braf, a'r ffyrdd yn sych ac heb rewi, ond bydd yn gwneud ei orau beth bynnag fo'r sefyllfa. Gobeithiwn ninnau y bydd i Eco'r Wyddfa fflachio heibio postyn diwedd y rali, wedi cwblhau y cwrs yn ddiogel.

Pob lwc i chi hogia; cawn hanes y daith yn Eco'r mis nesaf.

# Pêl-droed

## LLANRUG

**26.11.77:**

**Cwpan Iau Gogledd Cymru**

**Llanrug 7 Conwy 0**

Llanrug yn maeddu Conwy ac yn rhuo trwodd i bedwaredd rownd y Gwpan, gyda gobaith da yn ôl y perfformiad hwn o fynd ymhellach. 'Doedd Conwy ddim yn y gêm o gwbl ar wahân i gyfnod byr ar ddiwedd yr hanner cyntaf, ond 'roedd Llanrug dair gol ar y blaen erbyn hynny. Yn yr ail hanner, un ffordd yn unig oedd y gêm, a Llanrug yn ychwanegu pedair gôl arall.

Sgorwyr: B. Pitts, Gwynfor Owen, Len Padmore (2), P. Roberts (2) ac A. Price.

### GEMAU'R GYNGHRAIR

**19.10.77**

**Portdinorwig 0 Llanrug 1**

P. Roberts yn ennill y gem yn yr ail hanner.

**5.11.77:**

**Llanrug 7 Porthmadog 0**

Llanrug yn cyrraedd 50 o goliau'n y Gynghrair.

Sgorwyr: G. Owen (2); P. Roberts (2); Len Padmore, Dic Owen a Barrie Pitts.

**12.11.77:**

**Normal 1 Llanrug 3**

Gêm ddiflas oherwydd gwynt cryf. G. Owen, Dic Owen ac A. Price yn sgorio.

**19.11.77:**

**Llanrug 5 Bangor Athletic 1**

Curo Bangor am yr ail waith y tymor hwn. Dic Owen yn sgorio 4 a B. Pitts y llall.

### CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

| | Chwarae | Ennill | Cyfartal | Colli |
|---|---|---|---|---|
| Ll'rug | 14 | 12 | 2 | 0 |
| | O Blaid | Yn erbyn | Pwynt | |
| | 58 | 14 | 26 | |
| Ll'ber | 12 | 10 | 2 | 0 |
| | 48 | 15 | 22 | |

## LLANBERIS

### TÎM DAN 18 OED

**CWPAN CYMRU**

**Llanberis 2 Porthmadog 1**

Dyma gêm gynta'r tymor ac fel arfer 'roedd Llanbêr yn chwarae tîm o hogiau lleol. Digon bratiog oedd y gêm. Trefor Jones a Wyn Evans a sgoriodd i Lanber.

### CWPAN GOGLEDD CYMRU

**Penmaenmawr 0 Llanberis 2**

Gwell perfformiad, er bod gwynt mawr yn amharu ar y gêm. Gwnaeth Llanbêr yn dda i ddal Penmaenmawr rhag sgorio yn yr hanner cyntaf. Sgoriodd Trefor Jones a Gareth Williams yn yr ail hanner.

### CYNGHRAIR ARFON

**19.11.77:**

**Llanberis 5 Bethesda 0**

Llanberis yn sgorio yn y munud cyntaf trwy Iwan Evans a chyn hanner amser fe wnaeth Gareth Williams y sgôr yn 2 – 0. Sgoriodd Gareth un wedyn ar ôl mynd heibio tri o chwaraewyr Bethesda a tharo'r bêl i gongl y rhwyd. Ychwanegodd R. Harding ac Einion Holland ddwy gôl arall.

**11.11.77:**

**Nefyn 2 Llanberis 4**

2 gôl gan Hughie Griffith a Dic Parry a Ray Harding yn sgorio y ddwy arall. Sut aeth dwy gôl heibio Gwilym ni wyddom.

**4.11.77: CWPAN**

**Llanberis 6 Dinbych 1**

Perfformiad di-wall gan y tîm. Ray Harding 4 gôl ac un bob un gan Einion Holland ac Iwan Evans.

**26.11.77:**

**Llanberis 2 Sychdyn 1**

Llanberis yn ymosod o'r dechrau yn y gêm gwpan hon yn erbyn yr ymwelwyr o Glwyd, ond yn methu rhwydo'r bêl. O'r diwedd sgoriodd Ray Harding y gôl gyntaf, pan fethodd golgeidwad yr ymwelwyr afael yn ei gic uchel o'r asgell chwith. Daeth Sychdyn yn gyfartal cyn hanner amser gyda gôl debyg.

Yn ystod yr ail hanner methodd Ray Harding gic gosb, ond gwnaeth Ray yn iawn am hyn, fodd bynnag, pan beniodd gôl wych ddeng munud o'r diwedd i sicrhau lle i Lanbêr yn y rownd nesaf.

ALLAN ERBYN Y NADOLIG – RECORD HIR NEWYDD

HOGIA'R WYDDFA yn Taro Deuddeg

SAIN 1111D
Dwsin o ganeuon newydd gan y grŵp mwyaf poblogaidd yn hanes canu pop Cymru!

